- 6.7 Bydd Prifysgol Morgannwg, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful yn cadw cronfa ddata o'r rheiny sydd am ymwneud â hwy drwy gyfrwng y Gymraeg.

CYFATHREBU DROS Y FFÔN

- 6.8 Mae Grŵp Morgannwg yn croesawu ymholiadau ffôn yn Gymraeg.
- 6.9 Mae gan Brifysgol Morgannwg ddwy linell ffôn ar gyfer ymholiadau gan aelodau o'r cyhoedd.
- 6.10 Bydd prif switsfwrdd Prifysgol Morgannwg (ar gyfer ymholiadau cyffredinol) yn cael ei ateb yn ddwyieithog a bydd siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno parhau â'r sgwrs yn Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i aelod o staff perthnasol sy'n siarad Cymraeg. Darperir yr hyfforddiant angenrheidiol i staff er mwyn delio ag ymholiadau cychwynnol yn briodol. Pan na fydd gan gyfadran neu adran unrhyw aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, bydd y galwr yn cael ei drosglwyddo i siaradwr Cymraeg yn yr Uned Ymholiadau a Derbyn Myfyrwyr, y Swyddog Iaith Gymraeg neu Swyddog Cyfathrebu'r Gymraeg.
- 6.11 Mae gan yr Uned Ymholiadau a Derbyn Myfyrwyr (ar gyfer ymholiadau darpar fyfyrwyr) ym Mhrifysgol Morgannwg system awtomatig iaith Gymraeg benodol i'r sawl sy'n dymuno siarad drwy gyfrwng y Gymraeg. Pan fo'r Uned ar gau, bydd y gwasanaeth peiriant ateb dwyieithog yn rhoi cyfle i'r galwr adael neges yn Gymraeg ac i gael rhywun o'r Uned i gysylltu'n ôl yn Gymraeg.

- 6.5 Where an individual has expressed a preference to receive letters in Welsh or where an organisation is known to work mainly in Welsh, correspondence will be in the Welsh language.
- 6.6 Circular and standard letters addressed to all students of the Glamorgan Group, or to any of its constituent parts, or to the general public in Wales will be either bilingual or available in both English and Welsh.
- 6.7 The University of Glamorgan, RWCMD and MTC will each keep a database of those wishing to deal with them in Welsh.

TELEPHONE COMMUNICATION

- 6.8 The Glamorgan Group welcomes telephone enquiries in Welsh.
- 6.9 The University of Glamorgan has two phone lines for enquiries from members of the public.
- 6.10 The main University of Glamorgan switchboard (for general enquiries) will be answered bilingually and Welsh-speakers wishing to continue the discussion in Welsh will be transferred to a relevant Welsh-speaking member of staff. Staff will be provided with the necessary training to deal appropriately with the initial enquiry. Where a faculty or department has no Welsh-speaking members of staff available, enquirers will be transferred to Welsh speakers in the Enquiries and Admissions Unit, the Welsh Language Officer or the Welsh Language Communication Officer.
- 6.11 The Enquiries and Admissions Unit (for prospective student enquiries) at the University of Glamorgan has a dedicated Welsh language automated system for those wishing to speak through the medium of Welsh. When the Unit is closed the bilingual answer-phone service will provide the enquirer with the opportunity to leave a message in Welsh and to be contacted in Welsh by the Unit.

- 6.12 Yn y Coleg Cerdd a Drama a Choleg Merthyr Tudful, caiff galwadau i'r prif switsfyrddau yn ystod oriau swyddfa arferol eu hateb a'u trin yn ddwyieithog gan staff y dderbynfa. Caiff siaradwyr Cymraeg eu trosglwyddo i aelod o staff priodol sy'n siarad Cymraeg. Pan na fydd gan Adrannau unrhyw aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, caiff galwyr eu trosglwyddo i Gydlynwyr Iaith Gymraeg y Coleg Cerdd a Drama / Coleg Merthyr Tudful.
- 6.13 A bwrw na fydd siaradwr Cymraeg ar gael, neu os penderfynir nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael sy'n gymwys i ymateb i ymholiad penodol, nodir manylion yr ymholiad neu gofynnir i'r galwr anfon cais ysgrifenedig er mwyn i Grŵp Morgannwg ymateb yn ysgrifenedig yn Gymraeg, neu cynigir y dewis i barhau â'r alwad drwy gyfrwng y Saesneg.
- 6.14 Bydd Grŵp Morgannwg yn nodi yn ei Gyfeiriaduron Ffôn Mewnol yr aelodau hynny o staff sy'n siarad Cymraeg ym mhob adran. Dynodir bod aelod o staff yn siarad Cymraeg drwy ddefnyddio logo Iaith Gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a fydd yn cael ei ddefnyddio yn y cyfeiriadur mewnol, ar CV aelodau o staff ar y wefan ac ar lofnodion e-byst.

CYFARFODYDD CYHOEDDUS

- 6.15 Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i bobl sy'n mynychu unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan Grŵp Morgannwg.
- 6.16 Pan fydd aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn cynrychioli Grŵp Morgannwg mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac arddangosfeydd, fe'u hanogir i ddynodi eu bod yn siarad Cymraeg drwy wisgo bathodyn 'Iaith Gwaith.'

CYSYLLTIADAU ERAILL Â'R CYHOEDD

- 6.17 Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno cyfathrebu wyneb yn wyneb â'r Brifysgol wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn ôl yr hyn a ddarperir isod.

- 6.12 At RWCMD and Merthyr Tydfil College, calls to the main switchboards during normal office hours are answered and transacted bilingually by the staff at reception. In both cases Welsh speakers will be transferred to relevant Welsh-speaking members of staff. Where Departments have no Welsh-speaking members of staff available, enquirers will be transferred to the Welsh Language Co-ordinators at RWCMD/MTC.
- 6.13 In the event of no Welsh speaker being available, or if it is deemed that there is no Welsh speaking member of staff competent to respond to a particular enquiry, details of the enquiry will be noted or the caller will be asked to submit a written request so that the Glamorgan Group can respond in writing in Welsh, or offered the option of continuing the call in English.
- 6.14 The Glamorgan Group will identify in its Internal Telephone Directories Welsh-speaking members of staff in departments. Welsh speakers will be identified by using the Welsh Language Board's Working Welsh logo, which will be used in the internal directory, staff CVs on the website and on e-mail signatures.

PUBLIC MEETINGS

- 6.15 A simultaneous translation service will be provided for people attending any public meetings held by the Glamorgan Group.
- 6.16 When Welsh speaking members of staff represent the Glamorgan Group at public meetings and exhibitions, they will be encouraged to identify themselves as Welsh speakers by wearing a 'Working Welsh' badge.

OTHER CONTACTS WITH THE PUBLIC

- 6.17 Members of the public who wish to have face to face dealings with the Glamorgan Group are able and welcome to do so in Welsh and English, in accordance with the provisions below.

- 6.18 Ym Mhrifysgol Morgannwg, caiff ymholiadau i'r brif dderbynfa oddi wrth ddarpar fyfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd eu cyfeirio at aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn yr Uned Ymholiadau a Derbyn Myfyrwyr. Mae'r Adrannau a'r Cyfadranau hynny sydd ag aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn ymdrin yn uniongyrchol ag ymholiadau Cymraeg. Pan nad oes gan Adrannau a Chyfadranau aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, caiff ymholiadau eu cyfeirio at yr Uned Ymholiadau a Derbyn Myfyrwyr.
- 6.19 Yn y Coleg Cerdd a Drama a Choleg Merthyr Tudful, mae derbynyddion y Coleg, sy'n ddwyieithog, yn ateb ymholiadau yn uniongyrchol yn ystod oriau swyddfa arferol.
- 6.20 Anogir aelodau staff sy'n siarad Cymraeg mewn derbynfeydd, swyddfeydd porthorion a gwasanaethau cownter i wisgo bathodynau 'Iaith Gwaith'. Bydd y rheiny nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cynnig rhoi ymholwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg mewn cyswllt ag aelod priodol o staff.
- 6.21 O gofio natur arbenigol adrannau academaidd, gall fod yn fwy anodd sicrhau aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg. Yn gyffredinol, ni fydd adrannau academaidd yn cyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd. Fodd bynnag, anogir aelodau staff sydd yn dymuno dysgu Cymraeg i wneud hynny.
- 6.22 Bydd dulliau electronig o gyfathrebu â'r cyhoedd drwy gyfrwng e-bost, cysylltiadau telefideo, fideo-gynadledda ac ati yn cydymffurfio â'r un egwyddorion â dulliau o gyfathrebu nad ydynt yn electroneg.

7. WYNEB CYHOEDDUS Y BRIFYSGOL

HUNANIAETH GORFFORAETHOL

- 7.1 Bydd enw a chyfeiriad Prifysgol Morgannwg, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful, ynghyd â gwybodaeth briodol arall sy'n gysylltiedig â'u hunaniaeth gorfforaethol yn Gymraeg a Saesneg ar benawdau llythyrau, cerbydau, adeiladau, arwyddion a dulliau eraill o arddangos

- 6.18 At the University of Glamorgan enquiries to the main reception from prospective students and members of the public are referred to Welsh speaking members of staff in the Enquiries and Admissions Unit. Those Departments and Faculties which have Welsh speaking members of staff available deal directly with Welsh enquiries. Where Departments and Faculties have no Welsh speaking members of staff available, enquiries are referred to the Enquiries and Admissions Unit.

- 6.19 At RWCMD and MTC the College receptionists, who are bilingual, answer enquiries in person during normal office hours.

- 6.20 Welsh-speaking staff in reception areas, porters' lodges and counter services are encouraged to display 'Working Welsh' badges. Those who are unable to speak Welsh will offer to put persons enquiring in the Welsh language in contact with an appropriate member of staff.

- 6.21 Given the specialist nature of academic departments, the availability of Welsh-speaking members of staff may be more restricted. Generally, academic departments do not communicate directly with the general public. Nevertheless, encouragement will be given to members of staff who wish to do so to learn Welsh.

- 6.22 Electronic communication via e-mail, televideo links, video conferencing etc. will conform to the same principles as non-electronic forms of communication with the public.

7. THE UNIVERSITY'S PUBLIC FACE

CORPORATE IDENTITY

- 7.1 The name, address, and other appropriate information associated with the corporate identity of the University of Glamorgan, RWCMD and MTC will be in Welsh and English on letterheads, vehicles, buildings, signs, and other forms of public display within Wales.

cyhoeddus yng Nghymru.

ARWYDDION

- 7.2 Bydd Prifysgol Morgannwg, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful yn sicrhau bod yr holl arwyddion parhaol o fewn eu tiriogaeth yn ddwyieithog, gan gynnwys rhannau mewnol ohonynt y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt.
- 7.3 Gweithredir egwyddor o gydraddoldeb o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun ar bob arwydd.
- 7.4 Bydd Swyddog Iaith Gymraeg y Brifysgol ynghyd â Chydlynwyr yr Iaith Gymraeg yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful yn gyfrifol am sicrhau cywirdeb pob testun.

CYHOEDDIADAU

- 7.5 O ran dogfennau sy'n cael eu cynhyrchu gan Brifysgol Morgannwg, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful ar gyfer adrannau neu grwpiau penodol o ddarllenwyr, bydd y penderfyniad ynghylch p'un a ddylai'r cyhoeddiad fod yn ddwyieithog neu mewn un iaith yn unig yn cael ei wneud ar sail natur y deunydd, amlder y cyhoeddiad a'r gynulleidfa darged. Ffafirir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân pan ddosberthir y ddogfen yn eang yng Nghymru a thu allan i Gymru. Pan fo dogfen ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ceir datganiad ar y ddwy fersiwn yn nodi bod y cyhoeddiad ar gael yn yr iaith arall ac arddangosir y ddwy fersiwn gyda'i gilydd yng Nghymru. Ymdrinnir â'r ddwy iaith yn gyfartal o safbwynt diwyg, maint, ansawdd, eglurder, amlygrwydd, a phris (lle y bo hynny'n berthnasol).
- 7.6 Bydd dogfennau corfforaethol megis yr Adroddiad Blyneddol, Cenhadaeth a Nodau Strategol a phob tystysgrif a gyflwynir gan Grŵp Morgannwg yn ddwyieithog mewn un ddogfen.
- 7.7 Mae Prifysgol Morgannwg yn cynhyrchu amrywiaeth eang iawn o gyhoeddiadau bob blwyddyn, a gyhoeddir naill ai yn ganolog neu gan adrannau unigol. Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r egwyddor o gynnwys datganiadau dwyieithog sy'n cyfeirio at y Cynllun Iaith Gymraeg ym mhob cyhoeddiad sydd i'w dosbarthu

SIGNS

- 7.2 The University of Glamorgan, RWCMD and MTC will ensure that all permanent signs within the curtilage of their properties are bilingual, including internal areas to which the general public has access.
- 7.3 The principle of equality will be observed in relation to size, quality, legibility and prominence of text on all signs.
- 7.4 The University's Welsh Language Officer, in conjunction with the Welsh Language Co-ordinators at RWCMD and MTC will be responsible for ensuring the accuracy of all texts.

PUBLICATIONS

- 7.5 For documents produced by the University of Glamorgan, RWCMD and MTC which are directed at particular sections or groups of readers, the decision on whether the publication is bilingual or in one language will be determined by the nature of the material, the frequency of publication and the target audience. Separate Welsh and English versions will be favoured where the document is widely distributed both outside and within Wales. Where a document is available in both Welsh and English, each version will carry a statement indicating that the publication is available in the other language and both versions will be displayed together within Wales. Both languages will be treated equally in terms of format, size, quality, legibility, prominence and, if applicable, price.
- 7.6 Corporate documents such as the Annual Report, Mission and Strategic Goals, and all certificates issued by the Glamorgan Group will be bilingual in one document.
- 7.7 The University of Glamorgan issues a very wide variety of publications each year, some of which are centrally produced and others which are produced by individual departments. The University has adopted the principle of including bilingual statements referring to the Welsh Language Scheme in all

yng Nghymru a Lloegr.

- 7.8 Mae'r Brifysgol wedi cynhyrchu Canllawiau Argraffu Iaith Gymraeg (sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad A) er mwyn sicrhau bod pob Cyfadran ac Adran yn glynu wrth yr ymrwymadau uchod. Ar ddiwedd pob blwyddyn academiaidd, bydd y Brifysgol yn monitro nifer y cyhoeddiadau y mae wedi'u cynhyrchu ac i ba raddau y mae fersiynau cyfrwng Gymraeg wedi'u cynhyrchu yn unol â'r Canllawiau Argraffu.
- 7.9 Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn sicrhau bod ei holl gyhoeddiadau allweddol yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys Performance/Perfformiad – y canllaw i'r hyn sy'n digwydd yn y Coleg, Llawlyfr y Myfyrwyr, cylchgrawn Connect, Rhaglen Raddio, Llawlyfr y Llyfrgell a Phrospectws Astudiaethau Mynediad Cerddoriaeth Iau a Stiwdio Actorion Ifanc.
- 7.10 Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi cynhyrchu Canllawiau Argraffu Iaith Gymraeg (gweler Atodiad A) er mwyn sicrhau bod pob adran yn glynu wrth yr ymrwymadau uchod. Ar ddiwedd pob blwyddyn academiaidd, bydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn monitro'r defnydd o gopi cyfrwng Gymraeg ymhlith y deunydd a gynhyrchwyd ac yn gwerthuso ei berfformiad o ran gweithredu'r Canllawiau.
- 7.11 Nid yw Coleg Merthyr Tudful yn cynhyrchu cymaint o gyhoeddiadau â Phrifysgol Morgannwg a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Y cyhoeddiad allweddol a gaiff ei gynhyrchu yn flynyddol gan y Coleg yw'r Prospectws a bydd y Coleg yn sicrhau y caiff hwn ei gynhyrchu yn ddwyieithog, gan ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyhoeddiadau eraill a gynhyrchir o bryd i'w gilydd. Mae Canllawiau Argraffu Iaith Gymraeg Coleg Merthyr Tudful wedi'u cynnwys yn Atodiad A, a bydd y rhain yn cael eu defnyddio i fonitro ei gyhoeddiadau yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r canllawiau.
- 7.12 O ran prospectysau Grŵp Morgannwg, mae Prifysgol Morgannwg yn cyhoeddi prospectws iaith Gymraeg bob blwyddyn sy'n cynnwys manylion yr holl ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg, a'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hwn ar gael mewn print a chaiff ei ddosbarthu yn eang yng Nghymru a

publications to be distributed in Wales and England.

- 7.8 The University has produced Welsh Language Print Guidelines (included at Appendix A) to ensure all Faculties and Departments adhere to the above commitments. At the end of each academic year, the University will monitor the number of publications it has produced and the extent to which Welsh-medium versions have been produced in line with the Print Guidelines.
- 7.9 RWCMD ensures that all its key publications are produced bilingually, these include Performance/Perfformiad – the guide to what's on at the College, the Student Handbook, Connect magazine, Graduation Programme, Library Handbook and the Junior Music Access Studies and Young Actors Studio Prospectus.
- 7.10 RWCMD has produced Welsh Language Print Guidelines (See Appendix A) to ensure that all departments adhere to the above commitments. At the end of each academic year, RWCMD will monitor the use of Welsh-medium copy within material produced and evaluate its performance in implementing the Guidelines.
- 7.11 Merthyr Tydfil College does not produce as many publications as the University of Glamorgan and RWCMD. The key college publication produced each year is the Prospectus and the College will ensure that this is produced bilingually, while developing the use of Welsh in other publications produced from time to time. Merthyr Tydfil College's Welsh Language Print Guidelines are included in Appendix A and these will be used to monitor its publications on an annual basis to ensure that they meet the guidelines.
- 7.12 In terms of prospectuses for the Glamorgan Group, the University of Glamorgan publishes a Welsh language prospectus each year containing details of all Welsh-medium provision, and services available through the medium of Welsh. This is available in print and widely distributed in Wales and can be ordered via the

gellir ei archebu drwy'r wefan. Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn cyhoeddi Prosbectws y Coleg a chaiff copïau dwyieithog eu hanfon i'r holl gyfeiriadau yng Nghymru, cânt eu dosbarthu ym mhob digwyddiad gyrfaoedd yng Nghymru fel y bo'n briodol ac maent ar gael i siaradwyr Cymraeg tu allan i Gymru ar gais. Darperir copïau Saesneg i weddill y Deyrnas Unedig a thramor. Mae Coleg Merthyr Tudful yn cynhyrchu fersiynau Cymraeg o'i brosbectws, a gaiff ei ddosbarthu i ysgolion yn y de-ddwyrain.

FFURFLENNI

- 7.13 Bydd Grŵp Morgannwg yn sicrhau bod y ffurflenni a ddefnyddir gan y cyhoedd yng Nghymru ynghyd ag unrhyw esboniadau naill ai yn ddwyieithog neu ar gael mewn fersiynau Cymraeg/Saesneg ar wahân. Os oes galw sylweddol, bydd ffurflenni technegol ar gyfer grwpiau arbenigol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 7.14 Bydd Grŵp Morgannwg yn cynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ffurflenni a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin. Ar hyn o bryd, mae'r Ffurflen Ymrestru Myfyrwyr ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn ogystal â ffurflenni sy'n ymwneud â Cheisiadau am Swyddi a Graddau Ymchwil. Pan fo fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu darparu ar wahân, byddant ar gael yn gyfamserol a byddant yn cynnwys negeseuon sy'n cadarnhau bod ffurflen ar gael yn yr iaith arall hefyd.

HYSBYSIADAU I'R WASG

- 7.15 Cyhoeddir hysbysiadau a ryddheir i'r cyfryngau cyfrwng Cymraeg yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd Grŵp Morgannwg, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, yn enwi cyswllt sy'n gallu siarad Cymraeg.

DEUNYDD MARCHNATA A CHYHOEDDUSRWYDD (sy'n cynnwys deunydd cyhoeddusrwydd, ymgyrchoedd hysbysebu ac arddangosfeydd ac ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol)

- 7.16 Mae gan Grŵp Morgannwg wefannau ar wahân ar gyfer pob un o'i aelodau cyfansoddol er mwyn darparu deunydd marchnata a

website. The RWCMD publishes a College Prospectus, bilingual copies of which are sent to all addresses in Wales, are distributed to all Careers Events in Wales as appropriate and are available to Welsh speakers outside Wales on request; English copies are provided in the rest of the UK and overseas. Merthyr Tydfil College produces a Welsh version of its prospectus, which is distributed to schools in South East Wales.

FORMS

- 7.13 The Glamorgan Group will ensure that forms used by the general public in Wales and any accompanying explanations will either be bilingual or available in separate Welsh/English versions. If there is a significant demand, technical forms for specialised groups will be available in both Welsh and English.
- 7.14 The Glamorgan Group will produce Welsh and English versions of the most commonly used forms. At present, there are separate Welsh and English versions available of the Student's Enrolment Form and forms relating to Job Applications and Research Degrees. Where Welsh and English versions are provided separately, they will be available simultaneously and will carry messages confirming that one is also available in the other language.

PRESS NOTICES

- 7.15 Press notices issued to the Welsh-medium media in Wales will be produced in both Welsh and English and the Glamorgan Group will wherever possible name a Welsh speaking contact.

MARKETING AND PUBLICITY MATERIAL (including publicity material, advertising campaigns and exhibitions, and direct marketing campaigns)

- 7.16 The Glamorgan Group has separate websites for each of its constituent members in order to provide appropriate marketing

chyhoedduswydd priodol sy'n berthnasol i'w darpariaethau addysgol penodol. Mae gwefan Prifysgol Morgannwg yn cynnwys adrannau sylweddol yn Saesneg ac yn Gymraeg sy'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol ynghylch ei ddarpariaeth addysgol a chyfleusterau, gwybodaeth benodol ynghylch y cyrsiau sydd ar gael yn ddwyieithog a dolenni ar gyfer dogfennau sydd ar gael yn Gymraeg (e.e. yr Adroddiad Blynyddol). Mae Prifysgol Morgannwg yn ymrwymedig i gynyddu'r ddarpariaeth ddwyieithog ar ei gwefan a bydd yn mynd i'r afael â'r nod hwn fel rhan o'i hadolygiad o'r wefan gyfan a ddechreuodd yn Haf 2009. Atodir y cynllun gweithredu ar gyfer datblygu agweddau Cymraeg y wefan ddiwygiedig yn benodol yn Atodiad B. Yn sgil adolygu'r wefan, bydd y Brifysgol yn cynhyrchu Canllawiau Gwefan Iaith Gymraeg (gan ystyried Canllawiau Meddalwedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg) a bydd gofyn i gyfadrannau ac adrannau ddilyn y canllawiau hyn wrth gynnal a datblygu eu hadrannau hwy o'r wefan.

- 7.17 Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn datblygu fersiwn Cymraeg o'i wefan sydd ag URL Cymraeg yn benodol ar ei gyfer (www.cbcdc.ac.uk). Bydd yn bosibl newid o'r fersiwn Saesneg i'r fersiwn Gymraeg ac i'r gwrthwyneb. Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn ymrwymedig i gynyddu darpariaeth y tudalennau Cymraeg dros y flwyddyn sydd i ddod ac i ehangu'r ddarpariaeth fel sy'n briodol o hynny ymlaen. I ddechrau, bydd y tudalennau Cymraeg yn cynnwys gwybodaeth ynghylch cyrsiau yn y Coleg ynghyd â gwybodaeth ynghylch adrannau academaidd. Yn dilyn y gwaith hwn, bydd y Coleg hefyd yn ceisio cyflwyno tudalennau Cymraeg yn benodol ar gyfer newyddion a gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â'r Coleg. Mae cynllun gweithredu ar gyfer datblygu'r wefan wedi'i gynnwys yn Atodiad B.
- 7.18 Mae rhai agweddau ar wefan Coleg Merthyr Tudful eisoes ar gael yn Gymraeg ac mae'n bosibl newid o'r fersiwn Saesneg i'r fersiwn Gymraeg ac i'r gwrthwyneb. Mae'r Coleg yn parhau i ddatblygu fersiwn Gymraeg y wefan ac mae wedi paratoi cynllun gweithredu ar gyfer y gwaith datblygu a wneir dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad B.
- 7.19 Bydd deunydd hyrwyddo a ddefnyddir gan sefydliadau cyfansoddol Grŵp Morgannwg mewn ymgyrchoedd cyhoedduswydd neu mewn arddangosfeydd neu ar stondinau

and publicity materials relevant to their specific educational provisions. The University of Glamorgan Website includes substantial sections in both English and Welsh giving general information about its educational provision and facilities, specific information about courses available bilingually and links to documents available in Welsh (e.g. the Annual Report). The University of Glamorgan is committed to increasing the bilingual provision in its web site and will address this aim as part of the revision of the website as a whole which commenced in Summer 2009. The action plan for the specific development of the Welsh aspects of the revised website is attached at Appendix B. In the light of the revision of the website, the University will produce Welsh Language Website Guidelines (taking into consideration the Welsh Language Board's Bilingual Software Guidelines) which faculties and departments will be required to follow in maintaining and developing their sections of the web site.

- 7.17 RWCMD is developing a Welsh language version of its website which has a dedicated Welsh language URL (www.cbcdc.ac.uk). It will be possible to switch from the English language version to the Welsh language version and vice versa. RWCMD is committed to increasing the provision of Welsh language pages over the coming year and to enhance it as appropriate thereafter. The Welsh language pages will initially include information about courses at the College as well as information about academic departments. Following this work, the College will also seek to introduce dedicated Welsh Language pages for news and general information about the College. An action plan for the development of the website is included in Appendix B.
- 7.18 Aspects of Merthyr Tydfil College website are already available in Welsh and it is possible to switch from English to Welsh and vice versa. The College is continuing to develop the Welsh version of its website and has set out an action plan for the development to be undertaken over the coming years. This is included in Appendix B.
- 7.19 Promotion material used by the constituent institutions of the Glamorgan Group in publicity campaigns or used in exhibitions or on display stands directed at audiences in Wales will include

- arddangos a gaiff eu hanelu at gynulleidfaoedd yng Nghymru yn cynnwys deunyddiau dwyieithog neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- 7.20 Gellir cyhoeddi deunydd a berthyn i fodiwlau/cyrsiau ym Mhrifysgol Morgannwg, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful sydd ag elfen Gymraeg iddynt yn y Gymraeg yn unig.
- 7.21 Bydd yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i ddiwrnodau agored Prifysgol Morgannwg, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful sy'n cael eu cyhoeddi yng Nghymru ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan gynnwys holl ddeunydd hyrwyddo a rhaglenni'r digwyddiadau.
- 7.22 Mae Grŵp Morgannwg drwy ei fentrau a'i bartneriaethau Addysg Uwch yn trefnu digwyddiadau a gweithdai mewn ysgolion ar draws y rhanbarth. Bydd cynrychiolwyr iaith Gymraeg o fewn y Grŵp yn gweithio gyda'i bartneriaid allanol er mwyn datblygu strategaethau ar gyfer darparu gweithdai cyfrwng Cymraeg perthnasol i gyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol Cyfrwng Cymraeg a'r blaenoriaethau a nodir ynddo. Cynhyrchir gwybodaeth a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth yn ddwyieithog, a darperir sesiynau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 7.23 Mae Prifysgol Morgannwg yn ymrwymedig i ddatblygu ac ehangu ei chyswllt gydag ysgolion yng Nghymru, yn enwedig ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac mae ganddi gynllun strategol i ehangu ei gwaith gydag ysgolion targed penodol, parhau i gefnogi ysgolion lleol a darparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr i ysgolion dwyieithog yn y gogledd. Mae gan y Brifysgol Swyddog Cyswllt Ysgolion penodol i weithio gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- 7.24 Bydd ymgyrchoedd hysbysebu a gynhelir gan Brifysgol Morgannwg, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful yn y cyfryngau drwy gyfrwng iaith arferol y cyfrwng dan sylw (e.e. Cymraeg ar S4C neu Saesneg ar HTV). Gall ymgyrchoedd fod yn ddwyieithog pan fo hynny'n briodol i'r deunydd a/neu'r gynulleidfa a dargedir. O ran hysbysebu yn y wasg leol neu genedlaethol yng Nghymru, bydd y Brifysgol yn dilyn y canllawiau argraffu sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad A,
- bilingual material or separate Welsh and English versions.
- 7.20 Material relating to modules/courses at the University of Glamorgan, RWCMD and MTC with a Welsh language element may be produced only in Welsh.
- 7.21 All information relating to University of Glamorgan, RWCMD and MTC open days published in Wales will be available in both Welsh and English, including all promotional material and event programmes.
- 7.22 The Glamorgan Group through its HE outreach initiatives and partnerships organises events and workshops in schools across the region. Welsh language representatives within the Group will work with its outreach partners to develop strategies for providing relevant Welsh-medium workshops in line with the Welsh-medium National Development Plan and the priorities set out within it. Information provided as part of the service is produced bilingually, and sessions at Welsh-medium schools are delivered through the medium of Welsh.
- 7.23 The University of Glamorgan is committed to developing and extending its links with schools in Wales, especially Welsh-medium schools and has a strategic plan to expand its work with specific target schools, continue to support local schools and provide a more comprehensive service to bilingual schools in North Wales. The University has a dedicated Schools Liaison Officer to work with Welsh-medium schools.
- 7.24 Advertising campaigns undertaken by the University of Glamorgan, RWCMD and MTC in the media will be in the normal language of the particular media involved (e.g. Welsh on S4C or English on HTV). Campaigns may be bilingual when that is appropriate to the material and/or the target audience. In relation to advertisements in the local and national press in Wales, the University will follow the print guidelines contained in Appendix A, which set out a plan for increasing the percentage of bilingual

sy'n nodi cynllun ar gyfer cynyddu canran yr hysbysebion dwyieithog a drefnir yn ystod cyfnod y cynllun hwn, gan anelu at fod yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd y cynllun hwn.

- 7.25 O ran deunydd marchnata uniongyrchol a gynhrychir gan Brifysgol Morgannwg, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful a dargedir at adrannau neu grwpiau penodol, bydd y penderfyniad ynghylch p'un a fydd y cyhoeddiad yn ddwyieithog neu mewn un iaith yn seiliedig ar natur y deunydd, yr amllder a'r gynulleidfa darged. Bydd y Grŵp yn ceisio hybu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg pan fo hynny'n addas ar ddeunydd marchnata uniongyrchol.

HYSBYSEBION RECRIWTIO STAFF, HYSBYSIADAU SWYDDOGOL A HYSBYSIADAU CYHOEDDUS

- 7.26 Bydd hysbysebion sy'n ymddangos mewn papurau newydd sydd ar gael yn bennaf yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg.
- 7.27 Pan fydd y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd yr hysbyseb yn Gymraeg yn unig gyda throednodyn yn Saesneg yn esbonio natur yr hysbyseb.
- 7.28 Bydd hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus sy'n ymddangos mewn papurau newydd sydd ar gael yn bennaf yng Nghymru ar gael naill ai mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu yn ddwyieithog.

8. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

PENODI STAFF SY'N SIARAD CYMRAEG

- 8.1 Bydd strategaeth adnoddau dynol Grŵp Morgannwg yn adlewyrchu goblygiadau'r Cynllun hwn. Er mwyn sicrhau dros gyfnod o amser bod y Brifysgol yn gallu cyflwyno ei wasanaethau yn Gymraeg i safon uchel, yn effeithiol ac yn effeithlon, bydd yn llunio Strategaeth Sgiliau Ieithyddol yn ystod 2010/11 a fydd yn dod yn rhan o'i gynllun adnoddau dynol. Bydd y strategaeth hon yn galluogi'r Brifysgol i gadw gorolwg ar ei hanghenion a'i hadnoddau o ran sgiliau ieithyddol a chydlynu gweithgareddau hyfforddi a recriwtio er mwyn hwyluso amcanion y Cynllun. Bydd y

advertising undertaken over the period of this scheme, aiming to be fully bilingual by the end of this scheme.

- 7.25 For direct marketing material produced by the University of Glamorgan, RWCMD and MTC directed at particular sections or groups the decision on whether the publication is bilingual or in one language will be determined by the nature of the material, the frequency and the target audience. The Group will endeavour to promote Welsh-medium opportunities where and when suitable on direct marketing material.

STAFF RECRUITMENT ADVERTISING, OFFICIAL NOTICES AND PUBLIC NOTICES

- 7.26 Advertisements appearing in newspapers principally circulating in Wales will be in both Welsh and English.
- 7.27 Where the ability to speak Welsh is essential the advertisement will appear in Welsh only with a footnote in English explaining the nature of the advert.
- 7.28 Official notices and public notices appearing in newspapers principally circulating in Wales will be available either in separate Welsh and English versions or bilingually.

8. IMPLEMENTING AND MONITORING THE SCHEME

APPOINTMENT OF WELSH-SPEAKING STAFF

- 8.1 The human resources strategy of the Glamorgan Group will reflect the implications of this Scheme. In order to ensure over a period of time that the University is able to deliver its services in Welsh to a high quality, effectively and efficiently, it will produce a Linguistic Skills' Strategy during 2010/11 which will become part of its human resource planning. This Strategy will enable the University to maintain an overview of its linguistic skill needs and resources, and co-ordinate training and recruitment activities to facilitate the Scheme's objectives. The measures that follow will form a part of

mesurau a ganlyn yn ffurfio rhan o'r Strategaeth.

- 8.2 Bydd Grŵp Morgannwg yn dynodi'r swyddi hynny lle mae gwybodaeth o'r Gymraeg naill ai yn hanfodol neu yn ddymunol iawn er mwyn gweithredu'r mesurau yn y Cynllun hwn. Pan fo swyddi lle bernir bod gwybodaeth o'r Gymraeg yn hanfodol neu yn ddymunol iawn yn dod yn wag, penodir rhywun i'r swydd drwy un o'r dulliau a ganlyn: penodi siaradwyr Cymraeg neu ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg. Pan benodir rhywun di-Gymraeg i swydd lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ac ni fu'n bosibl recriwtio rhywun sy'n siarad Cymraeg, rhoddir amod cyflogaeth y disgwylir i'r sawl a gyflogir gytuno i ddysgu'r iaith i'r safon sy'n ofynnol yn ystod cyfnod rhesymol a gytunir, gyda chefnogaeth lawn y sefydliad.
- 8.3 Fel arfer, bydd Grŵp Morgannwg yn cyfweld ag aelodau o staff yn Saesneg ac yn Gymraeg os cafodd y swydd ei nodi yn un lle bo gwybodaeth o'r Gymraeg naill ai yn hanfodol neu yn ddymunol iawn.

HYFFORDDIANT IAITH GYMRAEG AR GYFER STAFF

- 8.4 Bydd Grŵp Morgannwg yn annog aelodau o staff i ddysgu Cymraeg, gan ganolbwyntio ar yr agweddau hynny ar ddarparu gwasanaethau sy'n cynnwys cyfathrebu â siaradwyr Cymraeg, boed wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy ddull arall.
- 8.5 Bydd Grŵp Morgannwg hefyd yn annog aelodau o staff i ddysgu Cymraeg yn wirfoddol yn ystod oriau gwaith. Cynigir cyrsiau Cymraeg i staff drwy Ganolfan Cymraeg i Oedolion y Brifysgol, sy'n darparu cyrsiau ar lefelau priodol i bob dysgwr, boed yn ddechreuwyr neu'n ddysgwyr rhugl sy'n dymuno gwella eu sgiliau. Mae gan y Ganolfan Cymraeg i Oedolion brofiad eang o addysgu Cymraeg fel ail iaith a derbyniodd radd 1 yn arolwg diwethaf Estyn. Mae'r Ganolfan wedi penodi Swyddog Cymraeg yn y Gweithle a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Swyddog Iaith Gymraeg, Swyddog Cyfathrebu'r Gymraeg a Chyfarwyddwr y Ganolfan er mwyn trafod dulliau hysbysebu, monitro a datblygu darpariaeth y cwrs. Yn ystod Arolwg Sgiliau Ieithyddol diweddar, holwyd 2975 aelod o staff (Prifysgol Morgannwg, Coleg Merthyr Tudful a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru). Dangosodd

the Strategy.

- 8.2 The Glamorgan Group will identify those posts where knowledge of Welsh is either essential or highly desirable, in supporting the implementation of the measures in this Scheme. When posts where knowledge of Welsh is deemed essential or highly desirable become vacant, they will be filled by one of the following methods: recruiting Welsh speakers or providing Welsh language training. When a non-Welsh speaker is appointed to a post where the ability to speak Welsh is considered essential, and it has not been possible to recruit a Welsh-speaker, a condition of employment will be to learn the language to the required level within a reasonable agreed period, with the full support of the institution.
- 8.3 The Glamorgan Group will normally interview members of staff in English and Welsh if the post has been identified as one where a knowledge of Welsh is an essential or highly desirable requirement.

WELSH LANGUAGE TRAINING FOR STAFF

- 8.4 The Glamorgan Group encourages members of staff to learn Welsh, focusing on those areas of service delivery which entail communication with Welsh speakers, whether face to face, by telephone or by other means.
- 8.5 The Glamorgan Group also encourages staff to learn Welsh on a voluntary basis during working hours. Welsh courses are offered to staff through the University's Welsh for Adults Centre, which provides courses at appropriate levels for each learner, from beginners to fluent learners who wish to improve their skills. The Welsh for Adults Centre has wide experience of teaching Welsh as a second language and gained a Grade 1 in the last Estyn inspection. The Centre has appointed a Welsh in the workplace Officer and regular meetings are held between the Welsh Language Officer, Welsh Language Communications Officer, the Workplace Officer and the Director of the Centre to discuss methods of publicising, monitoring and developing the course provision. During a recent Linguistic Skills Survey, 2975 members of staff were surveyed (University of Glamorgan, MTC

adborth yr arolwg fod yr agwedd gyffredinol tuag at yr iaith Gymraeg yn gadarnhaol a gwnaeth nifer o'r sawl a holwyd sylw ynghylch amser a lleoliad y cyrsiau a'r posibilrwydd o addysgu ar-lein, a nododd nifer fawr ohonynt eu bod yn dymuno dysgu Cymraeg.

- 8.6 Cynhelir cyrsiau ar gampysau'r Brifysgol yn Nhrefforest a Chaerdydd (ATRiuM), Coleg Merthyr Tudful a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Bydd y rhaglen gyrsiau yn cynnwys sesiwn wythnosol i ddysgwyr rhugl sy'n dymuno gwella eu sgiliau ysgrifenedig, gan ganolbwyntio ar ysgrifennu e-byst, adroddiadau, cofnodion, erthyglau ac ati drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn cynyddu nifer y staff sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngholeg Merthyr Tudful, mae'r Swyddog Iaith Gymraeg hefyd yn trefnu sesiynau ar addysgu pynciau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngholeg Merthyr Tudful, er enghraifft, Technoleg Gwybodaeth a'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg yn trefnu gweithdai datblygu staff fel rhan o'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol ac anogir staff i fynychu'r rhain yn ogystal â Chynllun Sabothol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Hyfforddiant Iaith Gymraeg.
- 8.7 Yn ystod 2008/09, roedd 82 aelod o staff wedi cofrestru ar gyrsiau Cymraeg a gynhelir gan y Ganolfan Cymraeg i Oedolion yn arbennig ar gyfer staff Grŵp Morgannwg. Roedd eraill yn mynychu cyrsiau Cymraeg yn eu hamser hamdden y tu allan i'r gweithle. Anogir aelodau o staff sy'n dilyn cyrsiau lefel Mynediad a Sylfaenol i ennill credydau CBAC ac anogir y sawl sy'n dilyn cyrsiau lefel Canolradd ac Uwch i astudio ar gyfer credydau Rhwydwaith y Coleg Agored. Ar ddiwedd blwyddyn academiaidd 2008/09, gwnaeth 15 aelod o staff sefyll arholiad Cymraeg i Oedolion, 7 ohonynt yn sefyll arholiad lefel mynediad, 3 ohonynt yn sefyll arholiad lefel sylfaenol, 4 yn sefyll arholiad lefel canolradd ac un yn sefyll arholiad lefel rhugl.

TREFNIADAU GWEINYDDOL

- 8.8 Gan fod y Cynllun wedi ei dderbyn gan Fwrdd Academiaidd a Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Morgannwg, yn ogystal â Bwrdd Cyfarwyddwyr Coleg Merthyr Tudful a Bwrdd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, cyn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, mae ganddo awdurdod llawn Grŵp Morgannwg.

and RWCMD). The feedback to the survey revealed a generally positive attitude to the Welsh language and many respondents commented on the timing, location and on-line teaching of courses, with a large number indicating a desire to learn Welsh.

- 8.6 Courses are held at the University campuses at Treforest and Cardiff (ATRiuM), MTC and RWCMD. The programme of courses will include a weekly session for fluent learners who wish to improve their written skills, and will concentrate on writing emails, reports, minutes, articles, etc through the medium of Welsh. In order to increase the number of staff who teach through the medium of Welsh at MTC the Welsh Language Officer also organises sessions on teaching specific subjects through the medium of Welsh at MTC, for example, IT and Early Years. The Centre for Welsh Medium Higher Education organises staff development workshops as part of the National Development Plan and staff are encouraged to attend these as well as the National Assembly's Sabbatical Scheme for Welsh Language Training.
- 8.7 During 2008/09, 82 members of staff were registered on Welsh courses run by the Centre for Welsh for Adults specifically for staff of the Glamorgan Group. Others attended Welsh courses in their own time outside the workplace. Members of staff attending the Entry and Basic levels are encouraged to gain WJEC credits and those attending the Intermediate and Advanced levels to study for OCN credits. At the end of the 2008/09 academic year 15 staff undertook Welsh for Adults examinations, seven at entry level, three at foundation level, 4 at intermediate and one at proficiency level.

ADMINISTRATIVE ARRANGEMENTS

- 8.8 As the scheme has been accepted by the Academic Board and Board of Governors of the University of Glamorgan, as well as the Boards of Directors at Merthyr Tydfil College and the Royal Welsh College of Music and Drama, before being submitted to the Welsh Language Board it bears the full authority of the Glamorgan

- 8.9 Mae'r Dirprwy Is-Ganghellor penodedig yn gyfrifol am gydlynu gweithrediad y cynllun ar draws Grŵp Morgannwg. Mae Grŵp Cydlynu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cynorthwyo'r Dirprwy Is-Ganghellor penodedig i fonitro gweithrediad a chydymffurfiaid â'r Cynllun. Hefyd, mae'r Grŵp hwn yn ceisio cyfleoedd i ddatblygu defnydd yr iaith Gymraeg ar draws Grŵp Morgannwg. Mae Is-bwyllgor Gweithgarwch Iaith Gymraeg, sy'n adrodd i'r Bwrdd Academaidd drwy'r Pwyllgor Gwella Ansawdd, yn rhoi cyngor ar ddatblygiadau academaidd ac yn eu goruchwylio. Yn ogystal, mae'r Dirprwy Is-Ganghellor penodedig yn cael ei gefnogi gan y Swyddog Iaith Gymraeg a Swyddog Cyfathrebu'r Gymraeg sy'n darparu cyngor a chymorth i bob rhan o Grŵp Morgannwg wrth weithredu mesurau'r Cynllun hwn.
- 8.10 Mae gan bob adran a chyfadran sy'n rhan o Grŵp Morgannwg (gan gynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful) Gydlynnydd Cynllun Iaith Gymraeg sydd â'r rôl o gynghori ar ofynion y Cynllun a thynnu sylw'r adran/cyfadran at y gofynion hynny. Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'r Cydlynwyr sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod gweithrediad y Cynllun a'i fonitro.
- 8.11 Yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, mae Grŵp Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg yn adrodd i'r Pennaeth ac i Grŵp Cydlynu'r Cynllun Iaith Gymraeg ac yn monitro gweithrediad y Cynllun yn y Coleg.
- 8.12 Yng Ngholeg Merthyr Tudful, caiff adroddiadau cynnydd ar weithrediad y Cynllun yn y Coleg eu paratoi gan Gydlynnydd y Cynllun Iaith Gymraeg a chyflwynir yr adroddiadau i'r uwch dîm rheoli yn chwarterol ac adroddir i Grŵp Cydlynu'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- 8.13 Ar y cyfan, y prif gyswllt ynghylch materion sy'n ymwneud â'r Cynllun yw Swyddog Iaith Gymraeg Grŵp Morgannwg, sy'n gweithio ym mhrif safle'r Brifysgol yn Nhrefforest.
- 8.14 Bydd y Dirprwy Is-Ganghellor penodedig yn sicrhau bod holl staff a myfyrwyr y Brifysgol yn ymwybodol o'r egwyddorion a
- Group.
- 8.9 The nominated Pro Vice-Chancellor is responsible for co-ordinating the implementation of the scheme across the Glamorgan Group. A Welsh Language Scheme Co-ordinating Group assists the nominated Pro Vice-Chancellor in monitoring the implementation of and compliance with the Scheme. This Group also seeks opportunities for the development of the use of the Welsh language across the Glamorgan Group. A Welsh Language Activity Sub-Committee, reporting to the Academic Board through the Quality Enhancement Committee, advises on and oversees academic developments. In addition, the nominated Pro Vice-Chancellor is supported by a Welsh Language Officer and Welsh Language Communications Officer who provide advice and support to all parts of the Glamorgan Group in implementing the measures in this Scheme.
- 8.10 Each department and faculty within the Glamorgan Group (including RWCMD and MTC) has a Welsh Language Scheme Coordinator who has a role in advising on and drawing the attention of the department/faculty to the requirements of the Scheme. The Welsh Language Officer works closely with the Coordinators who are brought together at regular intervals to discuss the implementation and monitoring of the Scheme.
- 8.11 At the RWCMD there is a Welsh Language Scheme Monitoring Group which reports to the Principal and to the Welsh Language Scheme Co-ordinating Group and monitors the implementation of the Scheme at the College.
- 8.12 At Merthyr Tydfil College progress reports on the implementation of the Scheme at the College are prepared by the Welsh Language Scheme Co-ordinator and submitted to the senior management team every quarter and reported to the Welsh Language Scheme Co-ordinating Group
- 8.13 Overall, the main point of contact for matters concerning the Scheme is the Glamorgan Group Welsh Language Officer, based at the University's main site in Trefforest.
- 8.14 The nominated Pro Vice-Chancellor will ensure that all staff and students within the University are made aware of the principles

ymgorfforir yn y Cynllun hwn ynghyd â'r mesurau a geir ynddo. Pan fydd y cynllun diwygiedig yn cael ei lansio, yn fewnol, cynhelir sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer pob cyfadran ac adran a bydd y cynllun diwygiedig yn cael ei amlygu ar y fewnwyd ac yng nghylchgrawn y staff. Bydd aelodau newydd o staff yn derbyn copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg fel rhan o'u pecyn cyflwyno a chyfeirir at y Cynllun ym mhob dogfen berthnasol sy'n ymwneud â'r Brifysgol.

- 8.15 Caiff gwasanaethau cyfieithu Grŵp Morgannwg eu rheoli gan y Swyddog Iaith Gymraeg mewn cydweithrediad â Chydlynwyr yr Iaith Gymraeg yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful. Cymerir gofal i sicrhau bod gwaith cyfieithu yn cael ei wneud gan gwmnïau/unigolion sy'n gallu darparu gwaith o safon uchel.
- 8.16 Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi nodi grŵp o gyfieithwyr mewn meysydd gwahanol, sy'n gallu adlewyrchu natur arbenigol y sefydliad yn gywir ac yn sensitif.

GWASANAETHAU A DDARPERIR MEWN PARTNERIAETH Â THRYDYDD PARTÏON

- 8.17 Pan gaiff unrhyw wasanaethau newydd, neu rai sydd eisoes yn bodoli, eu rhoi allan ar gontract (e.e. diogelwch, glanhau, cynnal a chadw adeiladau) disgwylir i unrhyw gorff, unigolyn neu sefydliad sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol gydymffurfio â'r Cynllun hwn. Wrth osod unrhyw gontract newydd er mwyn darparu gwasanaeth, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod yr asiantaeth neu'r cwmni sy'n ymgymryd â'r gwaith ar ran y Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun. Cyflawnir hyn drwy gynnwys manylion perthnasol ynghylch gofynion y Cynllun mewn dogfennau tendro, contractau, cytundebau ac amodau a, lle bo hynny'n addas, gofynnir am ddatganiadau ynghylch sut y caiff y gwasanaethau hyn eu cyflwyno.
- 8.18 Er mwyn sicrhau y gweithredir ar hyn, rhoddir canllawiau ysgrifenedig i staff sy'n ymwneud ag asiantau a chontractwyr. Monitrir cydymffurfiaeth â'r Cynllun drwy weithdrefnau arferol y Brifysgol o fonitro contractau.
- 8.19 Mae'r Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, mudiadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill.

enshrined in this Scheme and the measures contained within it. When the revised scheme is launched, internally, awareness raising sessions will be held for all faculties and departments and the revised scheme will be flagged on the intranet and in the staff Bulletin. New staff will receive a copy of the Welsh Language Scheme as part of their induction pack and reference will be made to the Scheme in all appropriate University documentation.

- 8.15 Translation services within the Glamorgan Group are managed by the Welsh Language Officer in conjunction with the Welsh Language Co-ordinators in RWCMD and MTC. Care will be taken to ensure that all translation work is undertaken by firms/individuals capable of delivering an appropriately high standard of work.
- 8.16 RWCMD has identified a pool of subject-specific translators, able to reflect accurately and sensitively the specialist nature of the institution.

SERVICES WHICH ARE PROVIDED IN PARTNERSHIP WITH THIRD PARTIES

- 8.17 When any new or existing services to the public (e.g. security, cleaning, building maintenance) are put out to contract, the University will expect any bodies, individuals or organisations carrying out services on its behalf to comply with this scheme. In letting any new contract for the delivery of services, the University will ensure that the agency or company that undertakes the work on the University's behalf conforms to the requirements of the Scheme. This will be achieved by including relevant details of the Scheme's requirements in tendering documents, contracts, agreements and conditions and, where appropriate, asking for statements on how these services will be delivered.
- 8.18 In order to ensure that this is carried out staff dealing with agents and contractors will be issued with written guidance. Compliance with the Scheme will be monitored through the University's normal contract monitoring procedures.
- 8.19 The University works in partnership with public bodies, organizations from the voluntary sector and other agencies. The

Gweithreda'r Brifysgol ar sawl lefel pan fo'n cydweithio ag eraill:

- Pan fo'r Brifysgol yn arweinydd strategol neu ariannol mewn partneriaeth, bydd yn sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- Pan fo'r Brifysgol yn ymuno â phartneriaeth lle mae corff arall yn arwain, bydd mewnbyn y Brifysgol i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg a bydd yn annog partneriaid eraill i gydymffurfio.
- Pan fo'r Brifysgol yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithog. Pan fo'n gweithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm, bydd y Brifysgol yn gweithredu yn unol â'i Chynllun Iaith Gymraeg.
- Pan fo'r Brifysgol yn ymuno â phartneriaeth neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn holi'r darpar bartneriaid ynghylch eu Cynllun Iaith Gymraeg, eu polisiâu iaith neu'r modd y byddant yn gweithredu yn ddwyieithog. O fewn unrhyw bartneriaeth, bydd y Brifysgol yn cynnig cyngor a chymorth i'r sefydliadau partner eraill.

MONITRO'R CYNLLUN

- 8.20 Bydd gan y Dirprwy Is-Ganghellor penodedig, gyda chefnogaeth y Swyddog Iaith Gymraeg a Grŵp Cydlynw'r Cynllun Iaith Gymraeg, gyfrifoldeb cyffredinol dros fonitro gweithrediad y Cynllun ar draws Grŵp Morgannwg, gan weithredu ar ran yr Is-Ganghellor a Bwrdd y Llywodraethwyr. Bydd Swyddog Iaith Gymraeg y Brifysgol yn cael ei g/chefnogi gan Gydlynwyr yr Iaith Gymraeg yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful a byddant hefyd yn aelodau o Grŵp Cydlynw'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- 8.21 Bydd Grŵp Morgannwg yn monitro'r agweddau canlynol ar y Cynllun:
- i) gweithrediad y Cynllun mewn perthynas â'r amserlen a gytunwyd;
 - ii) blaengynllunio er mwyn sicrhau bod polisiâu neu weithdrefnau newydd yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun;
 - iii) nifer a natur yr ohebiaeth Gymraeg a'r amser a gymerir i

University works on many levels when working with others:

- When the University is the strategic and financial leader within a partnership, it will ensure that the public service provision is compliant with the Welsh Language Scheme.
- When the University joins a partnership which another body is leading, the University input to the partnership will comply with the Welsh Language Scheme and the organization will encourage other parties to comply.
- When the University is a partner in a consortium, it will encourage the consortium to adopt a bilingual policy. When acting publicly in the name of the consortium, the University will act in accordance with its Welsh Language Scheme.
- When the University joins or forms a partnership, it will ask prospective partners about their Welsh Language Scheme, Language policies or the means by which they will operate bilingually. Within any partnership, the University will offer advice and support to the other partner organizations.

MONITORING THE SCHEME

- 8.20 The nominated Pro Vice-Chancellor, with the support of the University Welsh Language Officer and the Welsh Language Scheme Co-ordinating Group, will have overall responsibility for monitoring the operation of the Scheme across the Glamorgan Group, acting on behalf of the Vice-Chancellor and Board of Governors. The University Welsh Language Officer will be supported by Welsh Language Co-ordinators at RWCMD and MTC, who will also be members of the Welsh Language Scheme Co-ordinating Group.
- 8.21 The Glamorgan Group will monitor the following aspects of the Scheme:
- i) the implementation of the Scheme in relation to the agreed timetable;
 - ii) forward planning to ensure that new policies or procedures comply with the requirements of the Scheme;
 - iii) the volume and nature of Welsh correspondence and the

- ymateb;
- iv) ansawdd a chost y gwasanaeth cyfieithu;
- v) y defnydd a wneir o ddelwedd gorfforaethol y Brifysgol;
- vi) gweithrediad y mesurau staffio a hyfforddi;
- vii) nifer a natur y cwynion a dderbynnir mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun;
- viii) datblygiadau addysgol.
- 8.22 Bydd Grŵp Morgannwg yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun ar gyfer Bwrdd y Llywodraethwyr ac anfonir copi at Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad hwn yn galluogi'r Brifysgol i gyflawni'r amcanion canlynol:
- Mesur a yw'r Brifysgol yn cydymffurfio â'r Cynllun;
 - Mesur ansawdd y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg;
 - Dadansoddi perfformiad ar sail adrannol, corfforaethol a thematig er mwyn sicrhau cysondeb;
 - Nodi unrhyw wendidau allweddol a llunio cynllun gweithredu ac amserlen i ddatrys y sefyllfa.
- 8.23 Ar ôl gweithredu'r Cynllun diwygiedig am dair blynedd, bydd Grŵp Morgannwg yn adolygu ac yn gwerthuso'i berfformiad wrth weithredu'r Cynllun ac yn paratoi Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig mewn cydweithrediad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 8.24 Dylid cyfeirio unrhyw gwynion am weithrediad Cynllun Iaith Gymraeg Grŵp Morgannwg at y Swyddog Iaith Gymraeg, a fydd yn ymateb ar ôl ymgynghori â'r staff perthnasol.
- 8.25 Mae Grŵp Morgannwg yn croesawu unrhyw awgrymiadau i wella'r Cynllun a bydd yn hysbysu'r cyhoedd o sut y bwriedir ymdrin â'r awgrymiadau hyn drwy ddatganiadau mewn cyhoeddiadau megis yr Adroddiad Blynyddol. Dylid cyfeirio unrhyw awgrymiadau yn y lle cyntaf at y Swyddog Iaith Gymraeg.
- 8.26 Bydd Grŵp Morgannwg yn cynnal arolygon bob rhyw dair blynedd er mwyn canfod barn ynghylch gweithrediad ac effaith y Cynllun ac amrywiaeth ac ansawdd y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan y Brifysgol.
- response times
- iv) the quality of the translation service and its cost;
- v) the use of the University's corporate image;
- vi) the implementation of staffing and training measures;
- vii) the incidence and nature of complaints relating to the implementation of the Scheme;
- viii) educational developments.
- 8.22 The Glamorgan Group will produce an Annual Report on the Scheme for the Board of Governors with a copy being sent to the Welsh Language Board. This report will enable the University to achieve the following objectives:
- Measure if the University is complying with the Scheme;
 - Measure the quality of the Welsh-medium service;
 - Analyse performance on a departmental, corporate and thematic basis to ensure consistency;
 - Identify any key weaknesses with an action plan and timetable to remedy the situation.
- 8.23 After three years of the implementation of the revised Scheme, the Glamorgan Group will review and evaluate its performance in implementing the Scheme and will prepare a revised Welsh Language Scheme in co-operation with the Welsh Language Board.
- 8.24 Complaints about the operation of the Glamorgan Group's Welsh Language Scheme should be addressed to the Welsh Language Officer, who will respond following consultation with relevant staff.
- 8.25 The Glamorgan Group welcomes suggestions for improvements to the Scheme and will advise the public how it intends to deal with these suggestions through statements in publications such as the Annual Report. Any suggestions should be addressed in the first instance to the Welsh Language Officer.
- 8.26 The Glamorgan Group will conduct periodic surveys at approximately three-year intervals to test views about the implementation and impact of the Scheme and the range and quality of services in Welsh provided by the University.

TARGEDAU AR GYFER GWEITHREDU MESURAU

- 8.27 Pan fo cynnwys y Cynllun yn cyfeirio at gamau gweithredu a thargedau i'r dyfodol, caiff y rhain eu cynnwys yn y ddogfen Camau Gweithredu/Targedau sydd i'w gweld yn Atodiad F. Pan nad oes cam gweithredu neu ddyddiad targed yn cael ei gynnwys yn y Cynllun, mae'r mesur eisoes yn cael ei weithredu.
- 8.28 Lle bo hynny'n briodol, nodwyd amserau penodol (e.e. o fewn 24 awr) yn rhannau perthnasol y Cynllun.

CYHOEDDI GWYBODAETH AM BERFFORMIAD

- 8.29 Bydd Grŵp Morgannwg yn cyhoeddi gwybodaeth yn flynyddol sy'n mesur ei berfformiad yn erbyn targedau penodol a nodir yn y Cynllun. Cyhoeddir crynodeb ar wefan y Brifysgol.

9. CYHOEDDUSRWYDD

- 9.1 Bydd Grŵp Morgannwg yn sicrhau bod darpariaethau ei Gynllun Iaith Gymraeg yn hysbys wrth ymwneud â darpar fyfyrwyr, cyrff allanol a'r cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth mewn prospectysau, ar wefannau ac mewn arddangosiadau ac arddangosfeydd.
- 9.2 Dylid cyfeirio pob ymholiad sy'n ymwneud â'r Cynllun hwn at y Swyddog Iaith Gymraeg, Prifysgol Morgannwg, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 1DL.

TARGETS FOR IMPLEMENTING MEASURES

- 8.27 Where the body of the text of the Scheme refers to future actions and targets, these are drawn together in the Actions/Targets document attached at Appendix F. Where no future action or target date is included in the Scheme, the measure has already been implemented.
- 8.28 Where appropriate, specific timescales (e.g. within 24 hours) have been incorporated into the relevant sections of the Scheme.

PUBLICATION OF INFORMATION ON PERFORMANCE

- 8.29 The Glamorgan Group will publish annually information comparing performance against specific targets set out in the Scheme. A summary will be published on the University's website.

9. PUBLICITY

- 9.1 The Glamorgan Group will ensure that in its dealings with prospective students, outside bodies and the public the provisions of its Welsh Language Scheme will be made known. This will include information in prospectuses, on websites and on displays and exhibitions.
- 9.2 All enquiries relating to this Scheme should be directed to the Welsh Language Officer, University of Glamorgan, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 1DL.

RHAN B: DARPARIAETH ADDYSGOL CYFRWNG CYMRAEG

Grŵp Prifysgol Morgannwg

1. Cyflwyniad

- 1.1 Bydd Grŵp Prifysgol Morgannwg yn parhau i ddarparu cyfleoedd i'w fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac ehangu eu sgiliau yn yr iaith, gan ymestyn y ddarpariaeth cyn belled ag y gall, yn dibynnu ar y galw a'r adnoddau sydd ar gael. O ran darpariaeth addysg uwch, bydd yn cysylltu ei waith fel y bo'n addas â'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg ac â'r cynlluniau pwnc penodol y mae wedi cytuno i gymryd rhan ynddynt. Bydd hefyd yn cydweithio â'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.
- 1.2 Cefnogir datblygiad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws Prifysgol Morgannwg gan Is-Bwyllgor Gweithgarwch y Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o holl gyfadranau academiaidd y Brifysgol, adrannau corfforaethol perthnasol fel Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gwasanaethau Dysgu a Systemau Corfforaethol, yn ogystal â Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful. Gwaith yr Is-bwyllgor hwn o Bwyllgor Gwella Ansawdd y Brifysgol yw cynghori'r Brifysgol ar faterion sy'n ymwneud â datblygiadau cyfrwng Cymraeg ac mae hefyd yn ystyried sut y gellir cydlynu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws cyfadranau ac aelodau cyfansoddol Grŵp Morgannwg.
- 1.3 Er mwyn datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Ngrŵp Morgannwg, bydd yn rhaid bod staff academiaidd sy'n siarad Cymraeg ar gael a all addysgu eu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn ymestyn gallu a pharodrwydd academyddion (sydd naill ai'n rhugl yn y Gymraeg neu'n ddysgwyr profiadol) i addysgu cyrsiau yn y Gymraeg, bydd y Brifysgol yn parhau i weithio drwy'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion i wella sgiliau Cymraeg ei staff. Bydd yn rhoi ystyriaeth, yn benodol, i ddarparu cyrsiau wedi'u teilwra i staff academiaidd mewn meysydd astudio penodol er mwyn eu galluogi i arwain gwaith grŵp, seminarau ac ati yn eu pwnc yn y Gymraeg.

PART B: WELSH-MEDIUM EDUCATIONAL PROVISION

University of Glamorgan Group

1. Introduction

- 1.1 The University of Glamorgan Group will continue to provide opportunities for its students to study through the medium of Welsh and to enhance their Welsh language skills, enhancing the provision as far as it is able in the light of demand and availability of appropriate resources. In relation to higher education provision, it will relate its work as appropriate to the Welsh Medium National Development Plan and to the specific subject national plans in which it has agreed to participate. It will also work in liaison with the Centre for Welsh Medium Higher Education.
- 1.2 The development of Welsh-medium provision across the University of Glamorgan Group is supported by the Welsh Language Activity Sub-Committee which includes representatives of each of the academic faculties at the University, relevant corporate departments such as Student Services and the Learning and Corporate Systems Services, as well as the Royal Welsh College of Music and Drama and Merthyr Tydfil College. This Sub-committee of the University's Quality Enhancement Committee is charged with advising the University on issues relating to Welsh-medium developments and also considers how Welsh-medium provision can be co-ordinated across faculties and the constituent members of the Glamorgan Group.
- 1.3 The development of Welsh-medium provision at the Glamorgan Group is dependent on the availability of Welsh-speaking academic staff able to deliver their subjects through the medium of Welsh. In order to enhance the abilities and willingness of academics (who are either fluent in Welsh or are advanced learners) to deliver courses in Welsh, the University will continue to work through the Centre for Welsh for Adults to enhance the Welsh skills of its staff. It will consider in particular the delivery of tailored courses to academic staff in specific fields of study to enable them to deliver group work, seminars, etc in their subject

- 1.4 Mae'r adrannau isod yn disgrifio sut y mae gwahanol rannau o Grŵp Prifysgol Morgannwg yn mynd ati i ddatblygu a darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Yn Atodiadau C, D ac E ceir manylion am y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a gynigir neu sydd i'w datblygu gan Brifysgol Morgannwg, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful, yn y drefn honno, o 2009/10 ymlaen.

2. Prifysgol Morgannwg

Datblygiadau ers 2005

- 2.1 Ers i Gynllun Iaith Gymraeg cyntaf y Brifysgol gael sêl bendith Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Ionawr 2005, mae'r cyfleoedd i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith wneud rhannau o'u cyrsiau yn y Gymraeg wedi parhau i gynyddu yn y Brifysgol. Mae hyn yn ganlyniad strategaeth a geisiodd ganolbwyntio ar feysydd pwnc allweddol lle gwelodd y Brifysgol fod galw gan y myfyrwyr a lle mae'r adnoddau priodol ganddi i ymestyn ei ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gweithio'n Strategol

- 2.2 Yn ystod 2005 comisiynodd y Brifysgol gwmni allanol, Cwmni Iaith, i ymchwilio a chynhyrchu adroddiad am y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol, gan ystyried agweddau myfyrwyr presennol a myfyrwyr posibl a'r galw ganddynt, y galw gan gyflogwyr, yn ogystal â'r adnoddau sydd ar gael yn y Brifysgol. Gwnaed yr ymchwil rhwng mis Medi a mis Tachwedd, a chafwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2005. Nodai'r adroddiad feysydd pwnc penodol y dylai'r Brifysgol eu blaenoriaethu wrth ddatblygu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ystyriwyd argymhellion Cwmni Iaith wrth ffurfio strategaeth cyfrwng Cymraeg y Brifysgol ers 2005.
- 2.3 Strategaeth gyffredinol y Brifysgol, y bydd yn parhau i'w chanlyn dros y tair blynedd nesaf, yw canolbwyntio ar ddisgyblaethau

area in Welsh.

- 1.4 The sections below set out the approach of each of the constituent parts of the University of Glamorgan Group to the development and delivery of Welsh-medium provision. Attached at Appendices C, D and E are details of the areas of Welsh-medium provision offered/ to be developed by the University of Glamorgan, the Royal Welsh College of Music and Drama and Merthyr College respectively for 200/10 onwards.

2. University of Glamorgan

Developments since 2005

- 2.1 Since the University's first Welsh Language Scheme was approved by the Welsh Language Board in January 2005, the opportunities for Welsh-speaking students to undertake aspects of their courses through the medium of Welsh have continued to increase at the University. This is a result of a strategy which has sought to focus on key subject areas where the University has identified a student demand and where it has the resources to expand its Welsh-medium provision.

Strategic Approach

- 2.2 During 2005 the University commissioned an external company, Cwmni Iaith, to undertake research and produce a report on Welsh Medium provision at the University, taking into account the demand from and inclinations of current and potential students, the demand from employers, as well as the resources available at the University. The research was undertaken during September – November, with the report being delivered in December 2005. The report identified specific subject areas which the University should prioritise in moving forward with its Welsh-medium developments and the Cwmni Iaith recommendations have been taken into account in shaping the University's Welsh-medium strategy over the years since 2005.
- 2.3 The overall strategy which the University has adopted, and will continue to follow over the next three years, is to focus on specific

penodol, gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael yn ogystal â'r galw am astudio yn y Gymraeg yn y disgyblaethau hynny, a'r posibilrwydd o greu mwy o alw. Fel rhan o strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu nifer y myfyrwyr addysg uwch sy'n astudio o leiaf rhan o'u cwrs yn y Gymraeg, rhoddwyd targed i'r Brifysgol o gael 1.8% o'i myfyrwyr yn astudio yn y Gymraeg erbyn 2010/11. Credir y bydd agwedd strategol bresennol y Brifysgol yn fodd o'i galluogi i gyrraedd y targed hwn.

- 2.4 Un o'r disgyblaethau allweddol y penderfynodd y Brifysgol ganolbwyntio'i hymdrechion arnynt, o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, dros y tair blynedd nesaf yw'r diwydiannau creadigol. Y man cychwyn oedd datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn Drama (caiff myfyrwyr blwyddyn gyntaf wneud gwerth 90 credyd o'u cwrs Drama yn y Gymraeg ers 2007/08), a dilynir hynny gan ddatblygu'r ddarpariaeth mewn Technoleg Cerddoriaeth, Technoleg Sain, Cerddoriaeth Boblogaidd, y Cyfryngau a Ffilm. Mae'r meysydd pwnc a ddewiswyd ar flaen y gad wrth i'r diwydiannau creadigol ddatblygu yng Nghymru.
- 2.5 Bu'n hwb i'r datblygiadau strategol hyn pan agorwyd campws newydd ATRiuM yng Nghaerdydd ym mis Medi 2008 ar gyfer Ysgol newydd Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol Caerdydd, gan gydnabod bod Caerdydd yn ganolfan allweddol ar gyfer gweithgarwch yn y cyfryngau a drama drwy gyfrwng y Gymraeg, ac y bydd yr addysg uwch cyfrwng Cymraeg y gall y Brifysgol ei darparu yn gyfraniad gwerthfawr at greu gweithlu â'r sgiliau proffesiynol priodol yn y Gymraeg i'r dyfodol.
- 2.6 Ymhlith y meysydd pwnc eraill y bydd y Brifysgol yn ceisio darparu peth addysg Gymraeg ynddynt dros y blynyddoedd nesaf mae astudiaethau Cymraeg proffesiynol, gwyddorau gofal iechyd, y gyfraith a chwaraeon. Elfen allweddol o'r strategaeth fydd paratoi myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a fedr gyflawni rhannau o'u gwaith proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Mae'r canolbwyntio a fydd ar y disgyblaethau uchod wedi'i gynllunio i gyflawni'r elfen hon o'r strategaeth.

disciplines, taking into account resources available and the existence of, as well as the potential to generate, student demand for Welsh-medium studies in those disciplines. As part of the Welsh Assembly Government's strategy to increase the number of higher education students studying at least part of their course through the medium of Welsh, the University has been given a target of having 1.8% of its students undertaking Welsh-medium studies by 2010/11. It is considered that the University's current strategic approach will be a means of enabling it to meet this target.

- 2.4 One of the key disciplines on which the University has elected to concentrate its Welsh-medium efforts over the coming three years is that of the creative industries. The development of Welsh medium provision in Drama (with first year undergraduate Drama students able to undertake 90 credits worth of their course through the medium of Welsh from 2007/08) was the starting point of the developments, which are being followed by the development of provision in Music Technology, Sound Technology, Popular Music, Media and Film. The subject areas chosen for development are at the forefront of major developments in the creative industries in Wales.
- 2.5 These strategic developments have been supported by the opening of a new campus at ATRiuM in Cardiff in September 2008 for the newly-established Cardiff School of Creative and Cultural Industries, which recognises that Cardiff is a key centre for Welsh-medium drama and media activities and that the Welsh-medium higher education provision which can be provided by the University will make a significant contribution to providing a workforce with the appropriate professional skills through the medium of Welsh for the future.
- 2.6 The other subject areas in which the University will seek to provide some Welsh-medium provision over the coming years include professional Welsh studies, health care sciences, law and sport. A key element of the strategy will be to prepare Welsh-speaking students who are able to undertake aspects of their professional work through the medium of Welsh, as well as English. The focus on the disciplines noted above is designed to deliver this element of the strategy.

- 2.7 Mewn rhai pynciau y penderfynwyd eu datblygu, fel Drama, bydd y Brifysgol yn ceisio galluogi myfyrwyr i wneud y rhan fwyaf o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond yn gyffredinol, datblygu a chynnig modiwlau penodol neu rannau o fodiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg fydd y strategaeth, gan alluogi myfyrwyr a gafodd addysg uwchradd Gymraeg i barhau i ddatblygu sgiliau iaith yn y Gymraeg hyd yn oed os nad ydynt am wneud eu holl astudiaethau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 2.8 Yng ngoleuni hyn, bwriad datblygu'r cwrs gradd mewn Astudiaethau Cymraeg Proffesiynol yw galluogi myfyrwyr i astudio'r radd gyfan yn y Gymraeg, ond hefyd galluogi myfyrwyr Cymraeg eu hiaith i wneud rhai modiwlau o'r cwrs fel rhan o radd prif bwnc/is-bwnc, fel rhan o radd gyd-anrhydedd neu gymryd un neu ragor o fodiwlau sy'n cyd-fynd â'u prif gwrs yn ôl eu hangen – ac felly wella eu sgiliau er mwyn eu defnyddio yn y gweithle maes o law. Rhoddir ystyriaeth, er enghraifft, i'r posibilrwydd o ymgorffori modiwlau Astudiaethau Cymraeg Proffesiynol yn rhan o radd anrhydedd mewn busnes er mwyn i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith allu datblygu eu sgiliau busnes drwy gyfrwng y Gymraeg, fel y gallant weithredu'n ddwyieithog yn eu bywydau proffesiynol.
- 2.9 Yn ogystal â'r pynciau a nodir uchod, bydd y Brifysgol yn annog astudio drwy gyfrwng y Gymraeg pan fo myfyrwyr unigol neu grwpiau o fyfyrwyr, ac aelodau o'r staff academiaidd sy'n addysgu rhannau o'r cyrsiau iddynt, yn siarad Cymraeg. Caiff hyn ei annog yn benodol pan fo'r astudio'n cynnwys cyfarwyddo traethodau yn unigol, ar gyrsiau ôl-radd er enghraifft. Hefyd, mewn meysydd pwnc pan fo gwaith grŵp yn rhan o'r dulliau addysgu a bod digon o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg i ffurfio grŵp ar wahân, a bod tiwtor ar gael sy'n siarad Cymraeg, anogir addysgu'r rhannau hynny o'r cwrs yn Gymraeg.

Datblygiadau o fewn y cyd-destun cenedlaethol/cydweithio

- 2.10 Bydd y Brifysgol yn gosod ei strategaeth ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyd-destun datblygiadau

- 2.7 In some of the subject areas identified for development, such as Drama, the University will seek to enable students to undertake the majority of their course through the medium of Welsh. In general, however, the strategy will be to develop and offer specific modules or parts of modules through the medium of Welsh, thus enabling students who have been through Welsh-medium secondary schooling to continue to develop their Welsh linguistic skills even though they do not wish to undertake all their higher education studies through the medium of Welsh.
- 2.8 In this respect the development of the undergraduate degree in Professional Welsh Studies is designed to enable students to study the full degree in Welsh but also to enable Welsh-speaking students to undertake specific modules from the course as part of a major/minor degree, as part of a joint degree or as one or more modules appropriate to their requirements to complement their main course and thus to improve their Welsh skills for future use in the workplace. Consideration will be given for example to the possibility of the honours degree in business incorporating modules from the Professional Welsh Studies area to enable Welsh-speaking students to develop their business skills through the medium of Welsh and therefore to be able to operate bilingually in their professional lives.
- 2.9 In addition to the subjects noted above, the University will also encourage study through the medium of Welsh where individual students or groups of students who are Welsh-speaking are taught parts of their courses by academic members of staff who also speak Welsh. This will be encouraged in particular where the studies involve supervision of dissertations on an individual basis, for example in postgraduate studies. In addition, in subject areas where group work is part of the teaching methodology and there are sufficient Welsh-speaking students to form a distinct group as well as a Welsh-speaking tutor, the delivery of these parts of the course through the medium of Welsh will be encouraged.

Developments within the national context/collaboration

- 2.10 The University will set its strategy for the development of Welsh-medium provision in the context of the developments in Welsh

cededlaethol mewn addysg uwch cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Bydd felly'n cymryd rhan weithgar yng ngwaith a phrosiectau'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg. Mae'r strategaeth uchod, felly, yn cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol y cytunwyd arno ar draws prifysgolion yng Nghymru ac yn gysylltiedig â'r meysydd pwnc a nodir yn y Cynllun fel rhai y rhoddir blaenoriaeth iddynt.

- 2.11 Bydd y Brifysgol yn parhau i ymgeisio am arian y Cyngor Cyllido ar gyfer datblygu addysg Gymraeg drwy wneud ceisiadau i'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg. Hyd yn hyn bu'n llwyddiannus gyda cheisiadau am gyfanswm o £35,000 er mwyn datblygu modiwlau mewn Drama, Cerddoriaeth a'r Cyfryngau. Yn ogystal, bydd yn parhau i wneud ceisiadau am ysgoloriaethau a chymrodoriaethau cyfrwng Cymraeg er mwyn cefnogi gwaith datblygu staff addysg uwch a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfrannu at ddatblygu modiwlau cyfrwng Cymraeg yn ystod cyfnod eu hysgoloriaethau a'u cymrodoriaethau. Cafodd cymrodoriaeth mewn Drama ei dyfarnu i'r Brifysgol, a gychwynnodd yn 2008/09, ac ysgoloriaeth mewn Drama a gychwynnodd yn 2009/10. Gwnaed ceisiadau am ysgoloriaethau a chymrodoriaethau mewn Technoleg Cerddoriaeth a'r Cyfryngau yn 2009/10 a dyfarnwyd cymrodoriaeth mewn Cerddoriaeth, i gychwyn yn 2010/11.
- 2.12 Bydd y Brifysgol yn parhau i gael ei chynrychioli ar y grwpiau a'r paneli a gefnogir gan y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys y Grŵp Sector Addysg Uwch a'i is-grwpiau ar Ddatblygu Staff, Marchnata ac E-ddysgu, yn ogystal â'r Grŵp Gweithredu a'r paneli rhwydwaith mewn pynciau sy'n berthnasol i ddarpariaeth addysgol gyffredinol y Brifysgol.
- 2.13 Mae'r agwedd hon ar strategaeth y Brifysgol yn unol â'i bwriad i weithio mewn partneriaeth â Sefydliadau Addysg Uwch eraill yng Nghymru o ran datblygu ei darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd felly'n parhau i ymwneud â datblygu a gweithredu'r Cynlluniau Datblygu Cenedlaethol ar gyfer meysydd pwnc penodol, gan gynnwys y Diwydiannau Creadigol yn benodol, a chyfrannu fel y bydd adnoddau staffio yn caniatáu at y Gyfraith, Nyrsio ac astudiaethau iechyd, Chwaraeon ac astudiaethau amgylcheddol/ daearyddiaeth.

medium higher education across Wales. It will therefore participate actively in the work and initiatives being undertaken by the Centre for Welsh-medium Higher Education (CWMHE). The strategy noted above is therefore in line with the National Development Plan which has been agreed across universities in Wales and relates to priority subject areas identified in the Plan.

- 2.11 The University will continue to apply for HEFCW funding for the development of Welsh-medium provision through the submission of bids to CWMHE. To date it has been successful in bids amounting to £35,000 for the development of modules in Drama, Music and Media. In addition, it will continue to submit bids for Welsh-medium scholarships and fellowships to support the development of future HE academic staff able to teach through the medium of Welsh, who during the period of their scholarships and fellowships contribute to the development of Welsh-medium modules and the delivery of teaching in Welsh. A fellowship in Drama was awarded and commenced in 2008/09 and a scholarship in Drama commenced in 2009/10. Bids for scholarships and fellowships in Music Technology and Media were submitted in 2009/10 and a fellowship in Music was awarded to commence in 2010/11.
- 2.12 The University will continue to be represented on the various groups and panels supported by CWMHE, including the Higher Education Sector Group (HESG) and its sub-groups on Staff Development, Marketing and E-learning, as well as the Operational Group and the subject network panels in subject areas relevant to the University's overall educational provision.
- 2.13 This aspect of the University's strategy is in line with its intention to work in partnership with other HEIs in Wales in relation to the development of its Welsh-medium provision. It will therefore continue to be involved in the development and delivery of the National Development Plans for specific subject areas, including in particular Creative Industries, contributing as its staffing resources allow to Law, Nursing and health-related studies, Sport and environmental studies/geography.

2.14 Er mwyn cefnogi'r agweddau hyn ar waith cyfrwng Cymraeg y Brifysgol, crëwyd swydd newydd, a ariennir gan y Cyngor Cyllido drwy'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg. Bydd deiliad y swydd yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Brifysgol, y Coleg Cerdd a Drama a Choleg Merthyr, yn ogystal â chydweithwyr o Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, i bennu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y dylid ei datblygu i'r dyfodol.

2.15 Mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn rhedeg modiwl israddedig mewn Sgriptio ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth, gan ddefnyddio'i harbenigedd mewn e-ddysgu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r modiwl drwy Blackboard. Bydd yn parhau i geisio cyfleoedd i ddatblygu dulliau tebyg o gydweithio â sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru. Yng ngoleuni hyn, mae'r Brifysgol wedi cyfrannu'n weithgar at ddatblygu'r Porth, sy'n defnyddio fersiwn cenedlaethol o Blackboard sy'n galluogi sefydliadau addysg uwch Cymru i rannu adnoddau dysgu ac addysgu Cymraeg, gan gynnwys e-gyflwyno darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws sefydliadau addysg uwch.

2.16 Yn ogystal â chydweithio â sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru, bydd y Brifysgol yn ceisio gwella ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gydweithredu â chyrrff allanol eraill a chyrrff proffesiynol fel rhai yn y GIG ynglŷn â Nyrsio, yr heddlu a Chyngor Chwaraeon Cymru. O ran Drama, bydd yn parhau â'r berthynas â Sherman Cymru, y mae'n cydweithio â hi i gyflwyno sgriptio yn y Gymraeg ar lefel israddedig.

2.17 Ym maes busnes, bydd y Brifysgol yn parhau i gydweithio â Chwlm Busnes, gan fanteisio ar arbenigedd staff yn yr Ysgol Fusnes sy'n gwneud ymchwil a gwaith ymgynghori drwy gyfrwng y Gymraeg.

Monitro datblygiadau a nodi cyfleoedd pellach

2.18 Er mwyn asesu'r meysydd yn y cwricwlwm y mae'n addas ystyried datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ynddynt, mae'r Brifysgol wrthi'n datblygu adroddiadau data er mwyn canfod y meysydd pwnc sydd â nifer o fyfyrwyr Cymraeg y gellid eu

2.14 In order to support these aspects of the University's Welsh-medium work, a new post, funded by HEFCW via the Centre for Welsh Medium Higher Education, has been created. The postholder will work with colleagues at the University, RWCMD and Merthyr College, as well as with colleagues across HEIs in Wales, to identify the Welsh-medium provision which should be developed for the future.

2.15 The University is currently running an undergraduate module in Scriptwriting jointly with the University of Aberystwyth, using its expertise in e-learning to support the delivery of the module through Blackboard. It will continue to seek opportunities to develop such joint means of working with other HEIs in Wales. In this respect, the University has actively contributed to the development of Y Porth, which uses a nationally-available version of Blackboard through which HEIs in Wales are able to share Welsh-medium teaching and learning resources, including e-delivery of Welsh medium provision across HEIs.

2.16 In addition to collaboration with other HEIs in Wales, the University will seek to enhance its Welsh-medium provision through co-operation with other external bodies and professional organisations such as those in the NHS in relation to Nursing, the police and the Sports Council for Wales. In relation to Drama it will continue its relationship with Sherman Cymru with which it is co-operating on the delivery of scriptwriting in Welsh at undergraduate level.

2.17 In the field of business, the University will continue to work with Cwlm Busnes, drawing on the expertise of staff in the Business School who undertake research and consultancy work through the medium of Welsh.

Monitoring developments and identifying further opportunities

2.18 In order to assess the areas of the curriculum in which it is appropriate to consider further development of Welsh-medium provision, the University is currently developing data reporting to identify the subject areas in which it has numbers of Welsh-

hannog i wneud rhan o'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yr adroddiadau hyn ar gael i'r cyfadrannau, ac fe'u hanogir i'w hystyried wrth ddatblygu eu cynlluniau strategol o ran darparu addysg Gymraeg yn y dyfodol. Yn ogystal, mae adroddiadau ar y gweill i ganfod yn fanylach i ba raddau y mae'r myfyrwyr hyn yn gwneud unrhyw ran o'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i fonitro'r cynnydd tuag at darged y Brifysgol o gael 1.8% o'i myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

- 2.19 I ategu'r data ar fyfyrwyr presennol, mae'r Brifysgol hefyd yn casglu ac yn dadansoddi data ar ymgeiswyr, wrth iddynt holi am y cyrsiau a phan fyddant yn ymgeisio. Bydd hyn o gymorth i ganfod nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n bosibl i'r dyfodol a bydd hefyd yn help i ddangos ym mha feysydd pwnc y byddai'n addas canolbwyntio darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol. Hyrwyddir cyfleoedd cyfrwng Cymraeg drwy gydol cyfnod myfyriwr yn y Brifysgol; yn benodol, anogir siaradwyr Cymraeg na chawsant gyfle i astudio yn y Gymraeg yn ystod blwyddyn gyntaf eu cwrs i fanteisio ar gyfleoedd i wneud hynny'n ddiweddarach yn eu cyrsiau.

Cymorth i astudio

- 2.20 Wrth geisio ymestyn ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer myfyrwyr, mae'r Brifysgol yn cydnabod bod ar fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg angen mynediad at gymorth i astudio yn y Gymraeg. Felly, mae'r Brifysgol wedi penodi aelod o staff yn y Ganolfan Addysg Galw-heibio yn yr ATRiuM a all helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau ysgrifenedig ar gyfer aseiniadau gwaith cwrs, sgiliau astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ati. Bydd yn parhau i fonitro'r angen am y fath wasanaethau cymorth ac yn cysylltu hynny â'r agweddau ar y strategaeth sgiliau iaith y bydd yn ei datblygu yn ystod 2009/10 sy'n ymwneud â phenodi staff.
- 2.21 Mae'r Brifysgol yn darparu meddalwedd cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr a staff i'w helpu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Gosodwyd pecynnau meddalwedd Cysill a Cysgeir ar y cyfrifiaduron yn y labordai Technoleg Gwybodaeth ar bob campws ac maent hefyd ar gael i aelodau unigol o staff ar

speaking students who might be encouraged to undertake aspects of their studies through the medium of Welsh. These reports will be made available to faculties who will be encouraged to take them into account in developing their future strategic plans in relation to Welsh-medium provision. Reports are also being developed to track in further detail the extent to which these students are undertaking any aspects of their studies through the medium of Welsh and to monitor progress towards the University's target of 1.8% of its students undertaking studies in Welsh.

- 2.19 To complement the data on current students, the University is also collecting and analysing data on applicants for its courses both at the enquiry and application stages. This will help to identify the numbers of potential Welsh-speaking students for the future and also provide guidance for the subject areas in which it might be appropriate to focus future Welsh-medium provision. Welsh-medium opportunities are promoted throughout a student's life at the University; in particular Welsh-speakers who have not had the opportunity to study in Welsh during the first year of a course are encouraged to take up opportunities later in their courses.

Support for studies

- 2.20 In seeking to enhance its Welsh-medium provision for students, the University recognises that students studying through the medium of Welsh need to be able to access study support in Welsh. The University has therefore recruited a member of staff in the Education Drop-in Centre in ATRiuM who is able to provide support for the development of aspects such as written skills for coursework assignments and study skills through the medium of Welsh. It will continue to monitor the requirements for such support services and relate these to the staff recruitment aspects of the linguistic skills strategy which it will develop during 2009/10.
- 2.21 The University makes available to students and staff Welsh-medium software to support their work through the medium of Welsh. The software packages Cysill and Cysgeir have been installed in PCs in IT laboratories on all campuses and are also available for individual members of staff on the PCs in their

gyfrifiaduron yn eu swyddfeydd.

3. Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Y Cyd-destun

- 3.1 Ers i Gynllun Iaith Gymraeg diwethaf y Coleg gael sêl bendith Bwrdd yr Iaith Gymraeg, bu newidiadau mawr yn y Coleg Cerdd a Drama. Ym mis Ionawr 2007 cwblhawyd uniad strategol â Phrifysgol Morgannwg, gan agor pennod newydd yn hanes y sefydliad. Yn dilyn yr uniad, croesawodd y Coleg Bennaeth newydd, Hilary Boulding, a ddaeth i'r swydd ym mis Tachwedd 2007.
- 3.2 Fel rhan o Gynllun Pum Mlynedd y Coleg (2008 – 2013) mynegwyd awydd i fanteisio i'r eithaf ar rôl y Coleg ac ehangu ei effaith fel Conservatoire Cenedlaethol Cymru. Bydd ymroddiad parhaus y Coleg i'r Gymraeg yn rhan o'r broses o gyrraedd y nod hwn.

Gweithio'n strategol

- 3.4 Mae'r Coleg yn ymrwymedig i ddatblygu ei ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn cwrpas ehangach Grŵp Morgannwg. Mae strwythur y Grŵp yn cynnig cyfleoedd newydd i'r Coleg elwa ar ystod ehangach o wasanaethau a gweithgarwch a ddarperir yn y Grŵp, ac mae'r Coleg yn ymrwymedig i edrych ar y cyfleoedd hyn fel rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg newydd.
- 3.5 Yn dilyn yr uniad â Phrifysgol Morgannwg, datblygodd y Coleg berthynas weithio agosach â'r Brifysgol, ac yn neilltuol ag Ysgol Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol Caerdydd. Gall y berthynas hon hwyluso'r gwaith o ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn Drama, ac mae'r Coleg yn ymrwymedig i edrych yn fanylach ar y cyfleoedd hyn.
- 3.6 Ar ôl creu Cymrodoriaeth ran-amser mewn Ffilm a Theledu, mae'r Coleg wedi penodi Darlithydd rhan-amser parhaol mewn Teledu. Bydd y swydd newydd hon yn darparu hyfforddiant yn Gymraeg a Saesneg, ac mae'n arwydd o awydd y Coleg i sicrhau bod ei ddarpariaeth academaidd yn parhau i ateb angen a galw'r diwydiant proffesiynol.

offices.

3. Royal Welsh College of Music and Drama

Context

- 3.1 Since the College's last Welsh Language Scheme was approved by the Welsh Language Board, major changes have taken place at RWCMD. In January 2007 it finalised a strategic merger with the University of Glamorgan, marking a new chapter in the history of the organisation. Following the merger, the College also welcomed its new Principal, Hilary Boulding, who took up her post in November 2007.
- 3.2 As part of the College's Five Year Strategy (2008 – 2013) RWCMD has stated its desire to fully inhabit the College's role and extend its impact as the National Conservatoire for Wales, and the College's ongoing commitment to the Welsh Language will form part of the process of achieving this aim.

Strategic approach

- 3.4 RWCMD is committed to developing its Welsh Language provision within the expanded scope of the Glamorgan group. The Group structure offers new opportunities for RWCMD to benefit from a wider range of services and activities provided within the Group, and the College is committed to exploring these opportunities as part of the new Welsh Language Scheme.
- 3.5 Following the merger with the University of Glamorgan RWCMD has developed a closer working relationship with the University, in particular, the Cardiff School of Creative & Cultural Industries (CCI). This relationship has potential to facilitate expansion of Welsh language provision in Drama, and the College is committed to exploring these opportunities further.
- 3.6 Following the creation of a part-time Fellowship in Film and Television the College has now appointed a permanent part-time Lecturer in Television. This new post will deliver training in both English and Welsh, and reflects the College's desire to ensure that its academic provision continues to match the needs and demands of professional industry.

3.7 Mae'r Coleg yn gweithio gyda nifer o gwmnïau proffesiynol yng Nghymru. Yn benodol, mae ganddo berthynas weithgar â BBC Cymru ac Opera Cenedlaethol Cymru yn ogystal â nifer o gwmnïau theatr sydd, gyda'i gilydd, yn cynnig cyfleoedd am leoliadau profiad gwaith proffesiynol gyda rhai o brif gwmnïau Cymru, gan gynnwys lleoliadau Cymraeg.

3.8 Mae'r Coleg yn dal yn awyddus i ddatblygu cwrs Cerddoriaeth Draddodiadol Cymru yn 2010/11 gyda modd i ddysgu rhan helaeth o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Cytunwyd ar yr amcan hwn yn sgil adolygiad diweddar y Coleg o'i bortffolio academiaidd ond mae hyn yn ddibynnol ar gael arian ychwanegol gan y Cyngor Cyllido.

Cyfleoedd Dysgu, Addysgu ac Asesu

3.9 Nid yw'r Coleg yn darparu cyrsiau Cymraeg a Saesneg ar wahân, ond mae pob cwrs academiaidd yn cynnwys modiwlau neu gydrannau y gellir eu hastudio yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Anogir myfyrwyr i weithio yn y ddwy iaith fel rhan o'u rhaglen hyfforddi gyffredinol. Oherwydd natur ansicr diwydiannau'r celfyddydau creadigol a pherfformio, atgoffir myfyrwyr yn aml bod y gallu i gynnal gyrfa lwyddiannus yn effeithiol yn y ddwy iaith yn fanteisiol iawn.

3.10 Mae'r Coleg yn diffinio cyfleoedd dwyieithog i ddysgu, addysgu ac asesu o dan un neu ragor o'r categorïau hyn:

- a) cyflwyno'r cwrs yn Saesneg gydag asesiad ysgrifenedig ar gael yn y Gymraeg, neu fel arall
- b) cyflwyno'r cwrs yn Saesneg gydag asesiad ymarferol ar gael yn y Gymraeg, neu fel arall
- c) cyflwyno'r cwrs yn Saesneg gyda gwaith llafar ar gael yn Gymraeg neu gyda chyfieithu ar y pryd, neu fel arall
- ch) addysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd, gyda sesiynau ar wahân ar yr amserlen mewn ystafelloedd gwahanol
- d) rhai elfennau o'r cwrs ar gael yn Gymraeg

3.7 The College works with a range of professional companies in Wales. In particular, RWCMD has active relationships with BBC Wales and Welsh National Opera as well as a range of theatre companies which together provide opportunities for professional engagement experience placements with some of Wales' top companies, including Welsh language placements.

3.8 It remains a desire for the College to develop a course in Traditional Welsh Music in 2010/11, with significant element of the course able to be taught through the medium of Welsh. The objective was part of the College's recent review of its academic portfolio, but remains subject to the securing of additional funding from HEFCW.

Learning, Teaching and Assessment Opportunities

3.9 The College does not provide separate Welsh and English medium courses, but every academic course includes modules or components that may be studied through the medium of Welsh or bilingually. Students are encouraged to work in both languages as part of their general training programme. In view of the insecure nature of the creative and performing arts industries, students are continually reminded that the ability to maintain a successful career effectively in both languages is obviously advantageous.

3.10 The College defines bilingual opportunities for learning, teaching and assessment under one or more of the following categories:

- a) course presented in English with written assessment available in Welsh or vice versa
- b) course presented in English with practical assessment available in Welsh or vice versa
- c) course presented in English with oral work available in Welsh or using instantaneous translation, or vice versa
- ch) simultaneous Welsh and English-medium teaching, with sessions timetabled separately in different rooms
- d) some elements of the course available in Welsh

dd) profiad gwaith mewn iaith wahanol i'r iaith y dysgir y cwrs ynddi.

Caiff pob myfyriwr sy'n dymuno astudio'n ddwyieithog wybod ar gychwyn pob modiwl/cwrs am gategori dwyieithog/dull dysgu'r modiwl/cwrs hwnnw.

Cerddoriaeth

3.11 Caiff y myfyrwyr ar yr holl Raglenni Cerddoriaeth lawer o hyfforddiant unigol yn eu prif faes astudio. Yn unol ag amcanion strategol y Coleg, mae unrhyw staff a benodir yn ymarferwyr yn eu meysydd arbenigol, a gallant fod o Gymru neu rywle arall, gan ddibynnu ar eu sgiliau arbennig. Pan fo'r tiwtor a'r myfyrwyr yn siarad Cymraeg, gall yr addysgu un-i-un a'r Cynllun Datblygiad Personol gael eu gwneud yn Gymraeg, yn enwedig mewn Astudiaethau Llais, Astudiaethau Telyn a Chyfansoddi. Er na all y Coleg warantu bod tiwtoriaid Cymraeg ar gael ym mhob maes astudio, mae amryw ddisgyblaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg; gall hyn amrywio o un flwyddyn academaidd i'r llall, yn dibynnu pwy yw'r staff academaidd.

Drama: Actio

3.12 Mae'r rhaglenni'n cynnig hyfforddiant integredig mewn sgiliau craidd iaith a symud, prosiectau actio penodol, ymarferion a pherfformio. Dysgir dau o'r Modiwlau Prosiect ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen Actio i Israddedigion ac un Modiwl Prosiect yn ail flwyddyn y cwrs yn y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog fel arfer – *Adeiladu Cymeriad, Actio ar gyfer y Sgrin 1 ac Actio ar gyfer y Sgrin 2*.

3.13 Mae myfyrwyr ar y cwrs hwn hefyd yn dilyn rhaglen dosbarth meistr a thros y blynyddoedd diwethaf mae'r Coleg wedi sefydlu casgliad o aelodau blaenllaw o'r diwydiant adloniant yng Nghymru sy'n ymweld â'r Coleg yn flynyddol.

3.14 Gall yr holl fyfyrwyr sy'n graddio gyflwyno gwaith i gynulleidfa wadd o gynhyrchwyr, cyfarwyddwyr, asiantau a chyfarwyddwyr castio yn yr arddangosfa flynyddol – *Stondin Actio* yng Nghaerdydd, Llundain a Manceinion. Mae myfyrwyr Cymraeg yn

dd) work experience in a situation where the language is different from that in which the course is taught.

Every student who wishes to study bilingually will be informed at the start of each module/course of the bilingual category/teaching method of that module/course.

Music

3.11 Students on all Music Programmes receive a high level of one-to-one tuition in their main field of study. In accordance with the College's strategic objectives, recruited staff are current practitioners in their specialist fields, and they may be from Wales or elsewhere, depending on their special skills. Where both tutor and students speak Welsh, one-to-one teaching and completion of the Personal Development Scheme may be undertaken in Welsh, particularly in Vocal Studies, Harp Studies and Composition. Although the College cannot guarantee Welsh-speaking tutors in every field of study, various disciplines are available through the medium of Welsh, although this may vary from one academic year to the next, depending on the composition of the academic staff.

Drama: Acting

3.12 The programmes offer an integrated training of core language and movement skills, specific acting projects, rehearsals and performance. Two of the Project Modules in the first year of the Undergraduate Acting programme and one Project Module in the second year of the course are usually delivered in Welsh and/or bilingually – *Building a Character, Acting for Screen 1 and Acting for Screen 2*.

3.13 Students on this course also receive a master-class programme and over recent years the College has established a pool of eminent members of the entertainment industry in Wales who visit the College annually.

3.14 All graduating students are able to present work to an invited audience of producers, directors, agents and casting directors at the annual Showcase – *Stondin Actio* in Cardiff, London and Manchester. Welsh speaking students present work in Welsh and

cyflwyno gwaith Cymraeg a Saesneg yn yr arddangosfa yng Nghaerdydd.

Drama: Dylunio Theatr

- 3.15 Caiff myfyrwyr Dylunio Theatr gyfle i weithio ar leoliad gwaith ar ddau gynhyrchiad Cymraeg fel y gallant weithio mewn cyd-destun proffesiynol gydag Actorion, Rheolwyr Llwyfan a Chyfarwyddwyr yn y Gymraeg. Trefnir lleoliadau astudio arbenigol hefyd gyda chwmnïau theatr, ffilm a theledu Cymraeg.
- 3.16 Er y dysgir dosbarthiadau gwaith prosiect a sgiliau yn Saesneg, gellir cyfieithu dogfennau briffio ac adborth asesu os oes angen.
- 3.17 Gellir cyflwyno pob gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg, a bydd y Coleg yn darparu cyfieithiad ar gyfer asesu. Mae'r addysgu, y sesiynau tiwtorial a'r asesu ar gyfer y prif brosiect Astudiaethau Cyd-destunol a Hanesyddol a'r traethawd estynedig oll ar gael yn Gymraeg.

Drama: Rheoli Llwyfan

- 3.18 Caiff myfyrwyr Rheoli Llwyfan ddewis un Lleoliad ar Gynhyrchiad Cymraeg bob blwyddyn. Gallant hefyd ddewis Lleoliad Gwaith gyda chwmni Cymraeg bob blwyddyn. Gellir cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig yn y Gymraeg. Mae un aelod o'r staff academaidd llawn amser yn y Tîm Rheoli Llwyfan yn siarad Cymraeg yn rhugl ac felly cynhelir sesiynau dysgu a/neu diwtorial unigol yn Gymraeg gyda myfyrwyr Cymraeg. Gellir dod â staff Cymraeg rhan-amser i'r adran ar contract hefyd os oes angen.

Drama: Rheoli'r Celfyddydau

- 3.19 Gellir addysgu rhan o'r modiwl Marchnata, Datblygu ac Addysg yn Gymraeg.

Monitro

- 3.20 Mae'r Coleg Cerdd a Drama yn paratoi gwybodaeth ystadegol yn rheolaidd er mwyn monitro faint o ddefnydd a wna'r myfyrwyr o'r ddarpariaeth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Pan fo myfyrwyr yn dangos diddordeb mewn hyfforddiant cyfrwng Cymraeg – yn

in English at the Showcase in Cardiff.

Drama: Theatre Design

- 3.15 Theatre Design students have the opportunity of working on two Welsh-language production placements so that they can work in a professional context with Actors, Stage Managers and Directors through the medium of Welsh. Specialist study placements are also organized with Welsh-language theatre, film and television companies.
- 3.16 Project work and skills classes, although taught in English, can provide briefs and assessment feedback in translation if required.
- 3.17 All written work may be presented in Welsh with the College providing translation for assessment. Teaching, tutorial sessions and assessment of the main Contextual and Historical Studies project and the extended Essay are available in Welsh.

Drama: Stage Management

- 3.18 Stage Management students may choose one Welsh-language Production Placement every year of their training. Students may also choose a Vocational Placement with a Welsh-language company each year. All written assessments may be submitted in Welsh. One member of the full-time academic staff in the Stage Management Team is a fluent Welsh Speaker and therefore one-to-one teaching sessions and/or tutorial sessions are held in Welsh with Welsh-speaking students. Part-time Welsh-speaking staff may also be contracted to the department if necessary.

Drama: Arts Management

- 3.19 The Marketing, Development and Education module contains a component that may be taught in Welsh.

Monitoring

- 3.20 RWCMD compiles regular statistical information to monitor student engagement with Welsh language teaching provision. Where applicants express an interest in Welsh Language tuition – primarily in Music where one-to-one tuition is common place – the

bennaf mewn Cerddoriaeth lle mae hyfforddiant unigol yn gyffredin – bydd y coleg yn cysylltu myfyrwyr â thiworiaid Cymraeg os oes modd.

- 3.21 Ym mis Mawrth 2009, cyfunodd y Coleg swyddfeydd gweinyddol Cerddoriaeth, Drama a'r Gofrestrfa er mwyn creu Adran Gwasanaethau Academaidd newydd. Fel rhan o'r ad-drefnu hwn penododd y Coleg Bennaeth Gwasanaethau Academaidd newydd, sy'n goruchwyllo'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn y rhaglen academaidd.
- 3.22 Cynrychiolir y Coleg ar y ddau gorff sydd gan Grŵp Morgannwg – Grŵp Cydlynw'r Cynllun Iaith Gymraeg ac Is-bwyllgor Gweithgarwch y Gymraeg.

4. Coleg Merthyr Tudful

- 4.1 Mae Coleg Merthyr Tudful yn ymrwymedig i ehangu'r cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny drwy elwa ar ddarpariaeth Grŵp Morgannwg. Mae strwythur y Grŵp yn golygu y gall y Coleg elwa ar wasanaethau a gweithgarwch ehangach a ddarperir o fewn y Grŵp, ac mae'r Coleg yn ymrwymedig i ystyried y cyfleoedd hyn fel rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg newydd.
- 4.2 Bydd y Coleg hefyd yn gweithio gydag ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol fel rhan o gynllun arfaethedig Ardal Ddysgu Merthyr – a fydd yn cynnig addysg drydyddol ar draws Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
- 4.3 Yn ogystal, mae'r Coleg yn edrych ymlaen at chwarae ei ran yn Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd (UHoVI), a ddylai ehangu cyfleoedd i astudio'n ddwyieithog hefyd. Bydd yr Athrofa yn canolbwyntio'n bennaf ar ddysgu seiliedig ar waith a graddau sylfaen; mae gan y Coleg arbenigedd mewn dysgu seiliedig ar waith eisoes, ac mae hynny'n help i wybod faint o alw sydd gan gyflogwyr lleol am sgiliau Cymraeg.
- 4.4 Yn strategol, mae'r Coleg yn ymrwymedig i ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio yn y Gymraeg neu'r Saesneg ar bob cyfle. Bydd y Coleg felly yn ceisio datblygu gallu staff presennol i ddarparu neu

college will match students with Welsh Language tutors where this is possible.

- 3.21 In March 2009, the College combined the administrative offices of Music, Drama and Registry to create a new Academic Services Department. As part of this restructuring the College appointed a new Head of Academic Services who oversees the monitoring of Welsh Language provision within the academic programme.
- 3.22 The College is also represented on the two Glamorgan Group bodies – the Welsh Language Scheme Co-ordinating Group (WLSCG) and the Welsh Language Activity Sub-Committee (WLASC)

4. Merthyr Tydfil College

- 4.1 Merthyr Tydfil College is committed to extending opportunities for students to learn through the medium of the Welsh Language, drawing on the provision within the the Glamorgan Group. The Group structure offers new opportunities for the College to benefit from a wider range of services and activities that are provided within the Group, and the College is committed to exploring these opportunities as part of the new Welsh Language Scheme.
- 4.2 The College will also be working with schools in the County Borough as part of the proposed Merthyr Learning Quarter (MLQ) – which will offer tertiary education across the County Borough of Merthyr Tydfil.
- 4.3 Moreover the College is looking forward to playing its part in the new Universities Heads of the Valleys Institute (UHoVI) which should also extend opportunities to study bi-lingually. UHoVI will be based largely on work-based learning and foundation degrees; the College already has significant expertise in work-based learning with the benefit that brings in terms of awareness of the demand from local employers for Welsh language skills.
- 4.4 Strategically the College is committed to developing opportunities for students to study in Welsh or English at every opportunity. To that end the College will both seek to develop existing staff

gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg, a recriwtio staff newydd a all addysgu yn ddwyieithog pan fydd modd. Cydnabyddir na fydd yr ymdrech honno'n ddigon ynnddi ei hun, felly bydd y Coleg hefyd yn cydweithio â darparwyr eraill i ateb galw gan ddysgwyr am gael astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â manteisio'n llawn ar botensial Ardal Ddysgu Merthyr ac Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd.

- 4.5 Yn ystod blwyddyn academaidd 2008/2009 sefydlodd Coleg Merthyr Tudful Grŵp Iaith Gymraeg i oruchwylio cyfeiriad strategol y cwricwlwm a gaiff ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r grŵp yn cynnwys y Deon Cyswllt/Pennaeth y Coleg, Pennaeth y Gwasanaethau Myfyrwyr, tiwtoriaid a swyddogion cymorth busnes o ystod eang o feysydd cwricwlwm. Mae'r grŵp yn adrodd i Fwrdd Gweithredol y Coleg.
- 4.6 Mae'r angen i ddatblygu a hyfforddi staff yn hanfodol i strategaeth y Coleg i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16. Y meysydd cwricwlwm a bennwyd er mwyn gweithredu'r strategaeth hon dros y tair i bum mlynedd nesaf yw Gofal Plant a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Nodwyd y meysydd hyn oherwydd arbenigedd y staff presennol a'u brwdfrydedd dros ddarparu a chefnogi addysg Gymraeg. Mewn cydweithrediad â Swyddog Iaith Gymraeg Prifysgol Morgannwg, anogir y tiwtoriaid ym meysydd Gofal Plant a Thechnoleg Gwybodaeth i wella eu sgiliau iaith Cymraeg er mwyn gallu addysgu rhannau o'u cyrsiau yn ddwyieithog (gweler adran 4.8). Cyfoethogir y broses hon gan yr hyfforddiant a gafodd un o'r tiwtoriaid Gofal Plant drwy gynllun sabothol Cymraeg Llywodraeth y Cynulliad yn ystod gwyliau haf 2009.
- 4.7 Fel aelod o Fwrdd Rheoli Strategol 14-19 Merthyr Tudful, cyfarfu'r Coleg â'r ysgol Gymraeg leol i bennu cyfleoedd i symud ymlaen â'r llwybrau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Wedi cyflawni'r hyfforddiant a amlinellir yn y paragraff uchod, gyda chefnogaeth awdurdod lleol Merthyr Tudful drwy'r broses flynyddol o gynllunio datblygiad y rhwydwaith, bwriada'r Coleg gynnig darpariaeth Gofal Plant i'r ysgol hon fel rhan o agenda llwybrau dysgu 14-19 ar gyfer blwyddyn academaidd 2010/11. Wedyn, yn y blynyddoedd sydd i ddod, bwriedir datblygu darpariaeth ychwanegol mewn Gofal Plant – a chynnig Technoleg Gwybodaeth fel llwybr dysgu ychwanegol.

expertise to deliver or support Welsh medium delivery and to recruit new staff wherever possible to deliver bi-lingually. Recognising that that approach alone will not be sufficient, the College will also work in partnership with other providers to respond to demand from learners to study through the medium of Welsh as well as exploiting the potential of the MLQ and UHoVI to the full.

- 4.5 In the academic year 2008/2009 Merthyr Tydfil College established a Welsh Language Group to oversee the strategic direction of the curriculum to be delivered through the medium of Welsh. The group consists of the Associate Dean/Head of College, the Head of Student Services, tutors and business support officers from across a wide range of curriculum areas. The group reports to the College Executive.
- 4.6 Paramount to the College strategy to deliver Welsh-medium education post- 16 is the need for staff development and training. The curriculum areas identified to take forward this strategy over the next three to five years are Childcare and Information and Communication Technology. These areas have been identified because of current staff expertise and enthusiasm for delivery and support through the Welsh language. In conjunction with the Welsh Language Officer, University of Glamorgan, the tutors in the Childcare and Information Technology area are being encouraged to enhance their Welsh language skills in order that certain aspects of their courses can be taught bilingually (see section 4.8). This process will be further enhanced by the training undertaken by a tutor in Childcare through the DCELLS Welsh language sabbatical scheme over the summer vacation 2009.
- 4.7 As a member of the Merthyr Tydfil 14-19 Strategic Management Board, the College has met with the local Welsh-medium school to identify opportunities to progress Welsh-medium learning pathways. Upon successful completion of the training outlined in the paragraph above, with the support of the local authority of Merthyr Tydfil through the annual network development planning process, the College intends to offer Childcare provision to this school as part of the 14-19 pathways agenda for the academic year 2010/11. This will be followed in future years by the development of additional provision in Childcare – with Information Technology offered as an additional learning pathway.

4.8 Bu Grŵp Iaith Gymraeg y Coleg yn gyfrifol am sefydlu targedau datblygu ar gyfer blwyddyn academaidd 2009/10. Mae'r manylion isod.

- Cynigir 'Cyflwyniad i'r Gymraeg' fel y modiwl iaith i'r holl ddysgwyr lefel 2 a 3 (tua 150) ym meysydd dysgu Celfyddydau Perfformio a Chreadigol, Busnes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.
- Cynigir un modiwl dwyieithog yn y rhaglen Gofal Sylfaenol, canolraddol ac uwch (tua 60 o ddysgwyr).
- Cynigir un modiwl dwyieithog ar y rhaglenni Diploma Gyntaf a Chenedlaethol BTEC mewn Technoleg Gwybodaeth (tua 80 o ddysgwyr).

4.10 Drwy Ganolfan Iaith Gymraeg Prifysgol Morgannwg, mae Cymraeg i Oedolion wedi ennill ei blwyf yn y Coleg. Anogwyd staff y Coleg i gofrestru ar y cyrsiau hyn er mwyn cael gwybodaeth sylfaenol o'r iaith; cyfoethogir y broses hon drwy leoli Gweithiwr Datblygu Cymraeg i Oedolion yn y Coleg yn barhaol o fis Medi 2009 ymlaen.

4.11 Yn ystod tymor y Gwanwyn 2009/10 bydd y Deon Cyswllt/Pennaeth y Coleg a Swyddog Iaith Gymraeg Coleg Merthyr Tudful yn trefnu sesiwn drafod gyda myfyrwyr Cymraeg y Coleg er mwyn cael gwell darlun o'u disgwyliadau o addysg ddwyieithog ac i helpu i gyfarwyddo'r broses o ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Coleg ymhellach o 2009/10 ymlaen.

4.8 The College Welsh Language Group has been responsible for the establishment of targets for development for the academic year 2009/10. These are detailed below.

- An 'Introduction to Welsh' will be offered as the language module to all level 2 and 3 learners (approximately 150) in the Performing and Creative Arts, Business, Health and Social Care and Information and Communication Technology learning areas.
- One bilingual module will be offered to the Care Foundation, intermediate and advanced full time programme (approximately 60 learners).
- One bilingual module will be offered to the BTEC First and National Diploma programmes in Information Technology (approximately 80 learners).

4.10 Through the University of Glamorgan Welsh Language Centre, Welsh for Adults is already well established within the College. College staff have been encouraged to enrol on these courses in order to gain a basic knowledge of the language; this process will be enhanced by the location of a Welsh for Adults Development Worker at the College on a permanent basis from September 2009.

4.11 During the Spring Term 2009/10 the Associate Dean/Head of College and the Welsh Language Officer for Merthyr Tydfil College will organise a discussion session with the college's Welsh-speaking students in order to gain a clearer picture of their expectations of bilingual studies and to help inform the further development of the College's Welsh-medium provision from 2009/10 onwards.

CANLLAWIAU ARGRAFFU

Prifysgol Morgannwg

Pan fo deunydd argraffu yn cael ei drafod, rhaid ystyried y canllawiau canlynol ynghylch deunydd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Gellir cael arweiniad pellach gan Swyddog Cyfathrebu'r Gymraeg os oes angen. Ni ddylid cyhoeddi unrhyw ddeunydd i'w defnyddio yng Nghymru heb gynnwys cyfeiriad at y ffaith bod gwybodaeth ar gael yn yr iaith Gymraeg a/neu at Bolisi Iaith Gymraeg y Brifysgol.

Dros gyfnod y Cynllun hwn, bydd y Brifysgol yn parhau i ystyried ei pholisïau ynghylch cyhoeddiadau, gan geisio gwella natur ddwyieithog ei deunyddiau. O ran hysbysebu yn y wasg leol a chenedlaethol yng Nghymru, bydd y Brifysgol yn cynyddu canran yr hysbysebu dwyieithog a wneir ganddi yn raddol dros gyfnod y Cynllun hwn gan anelu at fod yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd y Cynllun. Mae'r cynllun a'r targedau ar gyfer cyflawni hyn wedi'u nodi yn 4.1 isod.

1. Posteri

1.1 *Posteri Cyffredinol e.e. ar gyfer Prifysgol Morgannwg yn gyffredinol, diwrnodau agored, ysgoloriaethau ac ati*

Pan fo'r rhain yn cael eu dosbarthu i ysgolion ledled Cymru, dylent fod yn ddwyieithog h.y. gefn wrth gefn neu fersiynau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar wahân yn dibynnu ar y copi.

1.2 *Posteri Cyfadran/Cwrs Penodol*

Pan fo'r rhain yn cael eu dosbarthu i ysgolion ledled Cymru neu o fewn y gymuned yng Nghymru ac yn ddibynnol ar gynnwys y deunydd (rhoddir blaenoriaeth i gyrsiau sy'n cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg) cânt eu cynhyrchu yn ddwyieithog, gefn wrth gefn.

2. Ymgyrchoedd Awyr Agored

Ymgyrchoedd Hyrwyddo Cyffredinol

2.1 Bydd popeth a gynhyrchir ar gyfer eu harddangos yng Nghymru yn cynnwys brandio corfforaethol dwyieithog.

2.2 Bydd rhai posterï cyffredinol a gynhyrchir ar gyfer ymgyrchoedd awyr agored yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog, yn ddibynnol ar y gynulleidfa darged.

Ymgyrchoedd Cyfadran/Cwrs Penodol

- 2.3 Bydd rhai posteri cwrs penodol a gynhrychir ar gyfer ymgyrchoedd allanol yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog, yn ddibynnol ar y gynulleidfa darged ac yn enwedig ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y pwnc yn y Brifysgol.

3. Deunydd i'w osod mewn cyhoeddiadau

- 3.1 Os yw cyhoeddiad yn cael ei gynhyrchu er mwyn ei ddosbarthu'n eang y tu allan i Gymru, bydd gan y cyhoeddiad hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog. Lle bo hynny'n bosibl, bydd y Brifysgol yn ystyried y cyfle i gynhyrchu fersiwn benodol i'w dosbarthu yng Nghymru a fydd yn amlinellu'r cyfleoedd penodol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.2 Lle bo'n berthnasol, bydd y Brifysgol yn ymchwilio i'r cyfle i gynhyrchu fersiwn Gymraeg o'r cyhoeddiad a fydd ar gael ar-lein neu fel fersiwn wedi'i hargraffu.

4. Hysbysebion yn y Wasg

Hysbysebion Cyffredinol

- 4.1 O gychwyn y cynllun hwn, bydd hysbysebion cyffredinol sy'n cael eu cynnwys mewn cyhoeddiadau a ddosberthir yng Nghymru yn cynnwys hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog a byddant yn cynnwys datganiad yn y Gymraeg a fydd yn hysbysu bod gwybodaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid trafod hysbysebion gyda Swyddog Cyfathrebu'r Gymraeg cyn iddynt gael eu dylunio er mwyn ystyried effaith dwyieithrwydd ar y dyluniad.

Ar ddechrau 2010, bydd tua 20% o hysbysebion y Brifysgol yn y wasg yn ddwyieithog. Bydd y Brifysgol yn cynyddu'r ganran hon ym mhob blwyddyn o oes y cynllun, gan anelu at fod yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd oes y cynllun. I gychwyn, rhoddir blaenoriaeth i hysbysebion israddedigion gan symud yn raddol i ymgorffori canran gynyddol o hysbysebion ôl-raddedigion erbyn 2013.

Hysbysebion Cyfadran/Cwrs Penodol

- 4.2 Bydd y Brifysgol yn ystyried cynhyrchu rhai hysbysebion yn ymwneud â chysiau penodol yn ddwyieithog a gwneir y penderfyniad yn ôl ardal ddosbarthu'r papur a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y pwnc.

5. Hysbysebion Radio a Theledu

- 5.3 Bydd Hysbysebion Radio a Theledu yn iaith arferol y cyfrwng dan sylw ac mewn rhai achosion bydd gwybodaeth yn y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn darllediadau Saesneg.

6. Stondinau Arddangos

Stondinau Cyffredinol

- 6.1 Bydd paneli arddangos hyrwyddo a chorfforaethol cyffredinol y Brifysgol ynghyd â stondinau 'pop up' sy'n cael eu defnyddio mewn digwyddiadau yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog neu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ym mhob un o'r digwyddiadau hyn, bydd y Brifysgol yn darparu cyhoeddiadau dwyieithog neu fersiynau Gymraeg a Saesneg i'w dosbarthu i ymwelwyr sy'n ymweld â'r digwyddiad.

Stondinau Cwrs

- 6.2 Bydd stondinau a phaneli arddangos cyrsiau penodol a ddefnyddir mewn digwyddiadau yng Nghymru yn cynnwys brandio corfforaethol dwyieithog a bydd stondinau dwyieithog cyffredinol hefyd ar gael ar gyfer y digwyddiadau hyn. Bydd cyfadrannau sydd â darpariaeth a chyfleoedd cyfrwng Gymraeg yn cynhyrchu stondinau a 'pop ups' dwyieithog neu rai Gymraeg a Saesneg, ac yn amlygu'r cyfleoedd cyfrwng Gymraeg sydd ar gael o fewn y Gyfadran.

7. Prosbectysau

- 7.1 Bydd y Brifysgol yn cynhyrchu prosbectws cyfrwng Gymraeg yn flynyddol a fydd yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am y Brifysgol, rhestr o gyrsiau sydd ar gael a gwybodaeth benodol am ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg yn y Brifysgol. Bydd fersiwn Saesneg y prosbectws hefyd yn amlygu a hyrwyddo'r cyfleoedd cyfrwng Gymraeg ac yn cyfeirio darpar fyfyrwyr at fersiwn cyfrwng Gymraeg y prosbectws.
- 7.2 Bydd y prosbectws ôl-raddedig yn cynnwys gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd yn benodol yn amlygu'r cyfleoedd cyfrwng Gymraeg o fewn meysydd pwnc mewn adrannau penodol.

8. Llyfrynnau Cyrsiau Cyfadran

- 8.1 Bydd Llyfrynnau Cyfadrannau a Chyrsiau yn cynnwys gwybodaeth yn Gymraeg, gan dynnu sylw penodol at feysydd pwnc sydd â darpariaeth addysgol cyfrwng Gymraeg. Bydd pob Cyfadran yn hybu cyfleoedd cyfrwng Gymraeg cyffredinol ym mhob llyfryn a bydd y wybodaeth wedi'i theilwra yn briodol.

9. Cyhoeddiadau Diwrnodau Agored

- 9.1 Bydd yr holl wybodaeth a ddosberthir i hyrwyddo'r Diwrnodau Agored yng Nghymru yn cael ei chynhyrchu ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg neu'n ddwyieithog mewn un ddogfen.
- 9.2 Bydd yr holl wybodaeth a ddosberthir i ymwelwyr sy'n dod i Ddiwrnodau Agored ar gael ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg neu'n ddwyieithog mewn un ddogfen.

10. Llyfrynnau Corfforaethol

- 10.1 Bydd y Brifysgol yn cynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol yn ddwyieithog mewn un ddogfen a'r Cylchgrawn Corfforaethol Chwarterol yn Gymraeg ac yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

1. *Brandio*

Mae gan y coleg hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog a ddefnyddir yn y rhan fwyaf o achosion. Yr unig eithriadau i hyn yw ar ddeunydd a anelir at gynulleidfaoedd rhyngwladol sy'n defnyddio'r hunaniaeth Saesneg yn unig.

2. *Y Wasg a'r Cyfryngau*

Ar hyn o bryd, caiff datganiadau i'r wasg eu paratoi yn yr iaith sy'n briodol i'r cyfrwng dan sylw - yn Saesneg ar gyfer cyhoeddiadau neu ddarllediadau Saesneg a Chymraeg ar gyfer cyhoeddiadau neu ddarllediadau Cymraeg. Caiff y gronfa ddata o gysylltiadau'r cyfryngau ei diweddarau'n rheolaidd ac mae'n cynnwys prif gwmnïau/sefydliadau'r wasg a'r cyfryngau sy'n gweithredu yn Cymraeg a Saesneg yng Nghymru.

Ymdrinnir ag ymholiadau'r wasg a'r cyfryngau Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl yr angen.

3. *Posterï a Thafenni Perfformiadau*

- Ar gyfer perfformiadau yng Nghymru, bydd posterï a thafenni argraffedig yn cynnwys gwybodaeth ddwyieithog ynghylch dyddiadau, manylion prynu tocynnau a'r glodrestr allweddol.
- Bydd teitlau'r digwyddiadau yn aros yn iaith y cynhyrchiad.
- Bydd dyfyniadau o ddramâu yn aros yn iaith y cynhyrchiad.

4. *Rhaglenni*

Gyda thros dri chant o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn flynyddol yn y Coleg, mae gofyn i'r adran farchnata gynhyrchu nifer sylweddol o raglenni yn wythnosol. Bydd clawr pob rhaglen yn ddwyieithog a bydd y prif benawdau yng nghorff y testun hefyd yn ddwyieithog. Bydd gweddill y rhaglen yn yr iaith sy'n ymddangos yn y digwyddiad ei hun – Cymraeg ar gyfer gwaith Cymraeg, Saesneg ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yn gyfan gwbl yn Saesneg, a Chymraeg/Saesneg ar gyfer digwyddiadau dwyieithog.

5. *Hysbysebu Corfforaethol*

- Bydd pob hysbyseb yn y wasg leol a chenedlaethol yng Nghymru yn ddwyieithog.
- Bydd hysbysebion yng nghyhoeddiadau'r Deyrnas Unedig yn Saesneg yn unig.

6. **Stondinau Arddangos**

Bydd pob stondin arddangos (gan gynnwys 'pop-ups') i'w defnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd deunydd i'w defnyddio yn y Deyrnas Unedig neu dramor yn Saesneg (neu mewn iaith dramor) yn unig.

Coleg Merthyr Tudful

1. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r prospectws yn cael eu cynhyrchu yn flynyddol. Yn ogystal â sicrhau bod fersiwn Gymraeg ar gael ym mhob arddangosfa gyffredinol yn ymwneud â'r Coleg, caiff ei dosbarthu yn benodol i'r holl ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y de-ddwyrain ac i Gyrfa Cymru.
2. Mae'r Coleg yn cynhyrchu dyddiadur mewnol i fyfyrwyr bob blwyddyn. Erbyn mis Medi 2009, bydd rhannau o'r cyhoeddiad hwn yn ddwyieithog a chaiff yr adrannau Cymraeg eu hehangu o flwyddyn i flwyddyn ar ôl hynny.
3. Bydd delweddau corfforaethol ar bob poster yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog. Bydd y penderfyniad ynghylch faint o'r testun fydd yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog yn dibynnu ar natur y cwrs neu ddigwyddiad a hysbysebir. Bydd pob panel hysbysebu dros dro yn ogystal â stondinau sy'n hysbysebu'r Coleg a'i waith yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.
4. Bydd hysbysebion Radio a Theledu ar gael yn iaith arferol y cyfryngau a ddefnyddir. Mae'r Coleg yn bwriadu archwilio i'r defnydd o'r cyfryngau Cymraeg megis Radio Cymru o fis Medi 2009 ymlaen.
5. Bydd cyhoeddiadau sy'n ymwneud â Diwrnodau Gwybodaeth yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog (o fis Medi 2009 ymlaen).

DATBLYGU FERSIYNAU CYMRAEG O'R WEFAN

1. Prifysgol Morgannwg

Cynllun Datblygu Gwefan Gymraeg Prifysgol Morgannwg 2009

<u>Gweithred</u>	<u>Dyddiad Targed</u>	<u>Cyfrifoldeb</u>
1. Ystyried canlyniad a goblygiadau adolygiad gwefan o ran gwefan cyfrwng Saesneg y Brifysgol sydd i'w orffen yn haf 2009.	Ebrill 2010	Swyddog Cyfathrebu'r Gymraeg
2. Trafod a chynnal ymgynghoriadau gyda'r staff perthnasol er mwyn cytuno ar sut gall y wefan Gymraeg gael ei datblygu ochr yn ochr â'r wefan Saesneg ac i ba raddau y gall y fersiwn Saesneg gael ei dyblygu yn y wefan Gymraeg.	Ebrill 2010	Swyddog Cyfathrebu'r Gymraeg / Pennaeth y Wefan / Pennaeth y Tîm Dylunio
3. Paratoi cynllun datblygu a chynllun gweithredu ar gyfer y wefan Gymraeg newydd. Bydd hyn yn darparu rhestr glir o flaenoriaethau, gan bennu pa adrannau a fydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar y wefan yn y dyfodol. Yn gyntaf, rhoddir ystyriaeth i ddarparu gwybodaeth gyffredinol berthnasol ynglŷn â'r Brifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg – datblygir y tudalennau hyn gan yr Adran Farchnata. Wedyn, rhoddir ystyriaeth i'r rhannau a reolir gan y Cyfadrannau/Adrannau a nodir rhannau allweddol o'r tudalennau hyn a fydd ar gael yn Gymraeg.	Ebrill-Awst 2010	Swyddog Cyfathrebu'r Gymraeg / Pennaeth y Wefan / Cyfarwyddwr yr Adran Farchnata / Cyfadrannau ac Adrannau
4. Datblygu'r tudalennau penodol er mwyn hyrwyddo cyfleoedd cyfrwng Cymraeg ymhellach a	Ebrill 2010	Swyddog Cyfathrebu'r Gymraeg

<p>sicrhau bod y dyluniad yn ategu ac yn cyd-fynd â'r dyluniad newydd ar gyfer tudalennau Saesneg y wefan.</p>		
<p>5. Datblygu cynllun estynedig sy'n blaenoriaethu tudalennau'r we sydd i'w datblygu yn Gymraeg. Bydd hyn yn edrych ar y wybodaeth gyffredinol sydd ar gael, gan nodi'r wybodaeth fwyaf addas i gynulleidfa eang o siaradwyr Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y Brifysgol, sut i wneud cais, gwybodaeth am ysgoloriaethau (gan amlygu'r ysgoloriaeth cyfrwng Cymraeg), cyllid myfyrwyr, llety a chyfleoedd cymdeithasol (gan amlygu'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg).</p>	<p>Ebrill-Mehefin 2010</p>	<p>Swyddog Cyfathrebu'r Gymraeg / Tîm y Wefan</p>
<p>6. Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer datblygu a monitro cynnwys gwefannau'r Cyfadrannau a'r Adrannau a nodi meysydd allweddol ar gyfer darparu gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar wefannau'r Cyfadrannau drwy flaenoriaethu Cyfadrannau sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Mehefin – Medi 2010</p>	<p>Swyddog Cyfathrebu'r Gymraeg / Tîm y Wefan / Swyddogion Marchnata'r Cyfadrannau a'r Adrannau</p>
<p>7. Anelu at ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn glir drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr sy'n ystyried gwneud cais i'r Brifysgol ym mis Medi 2011.</p>	<p>Medi 2010 a pharhaus</p>	<p>Swyddog Cyfathrebu'r Gymraeg</p>
<p>8. Monitro a gwerthuso'r cynllun gweithredu ar gyfer 2009 a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer datblygiadau pellach ar gyfer af 2010 – haf 2011.</p>	<p>Medi 2010 a pharhaus</p>	<p>Swyddog Cyfathrebu'r Gymraeg</p>

2. COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU

Cynllun Gweithredu ar gyfer datblygu gwefan Gymraeg y Coleg

Cynhelir y tasgau allweddol canlynol er mwyn datblygu'r wefan:

Gweithred	Dyddiad Targed
<p>Cam 1 Prynu a gweithredu System Rheoli Cynnwys ar draws y Coleg</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prynu'r System • Gweithrediad Cam 1 (trosglwyddo'r wefan bresennol i'r System Rheoli Cynnwys newydd) 	<p>– Gwanwyn 2008 – cwblhawyd ym mis Tachwedd 2008</p>
<p>Cam 2 Nodi cynnwys allweddol i'w gynnwys, er enghraifft</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth Allweddol ynghylch Cyrsiau (o'r Prosbectws) • Darpariaeth cyfrwng Cymraeg (o'r Prosbectws) • Amdanom Ni (i'w gyfieithu) • Newyddion (i'w gyfieithu yn ôl y galw) 	<p>Haf 2009</p>
<p><u>Nodi personél allweddol i sicrhau Tudalennau Cymraeg</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Pennaeth Cyfathrebu – penodwyd • Rheolwr Technoleg Marchnata – i'w benodi • Swyddog Gweithredol Marchnata – penodwyd • Cyfieithwyr – defnyddio cyflenwyr presennol 	<p>Gorffennaf 2009</p>
<p>Cam 3</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfieithu cynnwys allweddol a gytunwyd yng nghanam 2 • Creu gwefan newydd • Cyflwyno botwm 'Saesneg/Cymraeg' ar brif dudalen rwcmd.ac.uk 	<p>Hydref 2009 Hydref 2009 Mai 2010</p>
<p>Lansio gwefan newydd</p>	<p>Mai 2010</p>

3. Coleg Merthyr Tudful

Gweithred	Dyddiad Targed
